

# Pecyn Dogfen Cyhoeddus



At: Gadeirydd ac Aelodau'r Cabinet

Dyddiad: Dydd Llun, 11 Chwefror  
2013

Rhif Union: 01824706141

ebost: [dcc\\_admin@denbighshire.gov.uk](mailto:dcc_admin@denbighshire.gov.uk)

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 19 CHWEFROR 2013**  
am **10.00 am** yn **CONFERENCE ROOM 1A, COUNTY HALL, RUTHIN.**

Yn gywir iawn

G Williams  
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidd

## AGENDA

### **RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I DDOD I'R RHAN YMA O'R CYFARFOD**

#### **1 YMDDIHEURIADAU**

#### **2 DATGAN BUDDIANNAU**

Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu niweidiol mewn unrhyw fusnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

### **3 MATERION BRYS**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

### **4 COFNODION (Tudalennau 5 - 16)**

I dderbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar Ionawr 15<sup>fed</sup>, 2013 [copi'n amgaeedig].

### **5 ADRODDIAD DIWEDDARIAD ARIANNOL**

I ystyried adroddiad gan y Cyngropydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Asedau (copi'n amgaeedig) yn nodi'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a chynnydd yn erbyn strategaeth y gyllideb a gytunwyd.

### **6 CYFRIF REFENIW TAI / CYLLIDEBAU REFENIW A CHYFALAF 2013/14**

(Tudalennau 17 - 24)

I ystyried adroddiad gan y Cyngropydd Hugh Irving, Aelod Arweiniol dros Gwsmeriaid a Chymunedau (copi'n amgaeedig) ar y Cyfrif Refeniw Tai a'r Cyllidebau Refeniw a Chyfalaaf 2013/14.

### **7 STRATEGAEETH GYFATHREBU (Tudalennau 25 - 38)**

I ystyried adroddiad gan y Cyngropydd Hugh Irving, Aelod Arweiniol dros Gwsmeriaid a Chymunedau (copi'n amgaeedig) yn manylu ar ddull amcanion cyfathrebu ac egwyddorion y Cyngor yn y tair blynedd i ddod.

### **8 STRATEGAEETH GWYBODAETH AC YMGYNGHORI GOFALWYR**

(Tudalennau 39 - 88)

I ystyried adroddiad gan y Cyngropydd Bobby Feeley, yr Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant (copi'n amgaeedig) ar weithrediad y Mesur Strategaethau Gofalwyr (Cymru) 2010 newydd fel y'i mynegir yn Strategaeth Gwybodaeth ac Ymgynghori Gofalwyr 2012 – 2015.

### **9 DIGWYDDIAD SEICLO ETAPE CYMRU 2013 (Tudalennau 89 - 94)**

I ystyried adroddiad gan y Cyngropydd Huw Jones, Aelod Arweiniol dros Dwristiaeth, Marchnata a Hamdden (copi'n amgaeedig) yn nodi digwyddiad seiclo ffyrdd caeedig Etape Cymru sydd i ddigwydd yn y Sir ym Medi, 2013.

### **10 NEWIDIADAU I DREFNIADAU ARIANNU BYSIAU (Tudalennau 95 - 100)**

I ystyried adroddiad gan y Cyngropydd David Smith, yr Aelod Arweiniol dros Dir y Cyhoedd (copi'n amgaeedig) sy'n ceisio cymeradwyaeth i'r trefniadau rheolaeth diwygiedig sy'n angenrheidiol i gyflenwi'r cynllun ariannu bysiau newydd drwy TAITH, ac i newid i Gyfansoddiad Taith i ganiatáu cyflenwi'r cynllun newydd.

## **11 BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET**

I dderbyn Blaenralgen Waith y Cabinet sy'n amgaeedig a nodi'r cynnwys

## **RHAN 2 – EITEMAU CYFRINACHOL**

### **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

Cymeradwyir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r eitem fusnes ganlynol gan ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig (fel y'i diffinnir ym mharagraffau 13 a 14 Rhan 4 o Atodlen 12A y Ddeddf) yn cael ei datgelu.

## **12 CONTRACT PARC AILGYLCHU SIR DDINBYCH (Tudalennau 101 - 108)**

I ystyried adroddiad gan y Cynghorydd David Smith, Aelod Arweiniol dros Dir y Cyhoedd (copi'n amgaeedig) sy'n darparu diweddarriad ar Gontact Parc Ailgylchu Sir Ddinbych.

## **MEMBERSHIP**

### **Y Cynghorwyr**

Hugh Evans  
Julian Thompson-Hill  
Eryl Williams  
Bobby Feeley

Hugh Irving  
Huw Jones  
Barbara Smith  
David Smith

### **COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# Eitem Agenda 4

## CABINET

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn Ystafell Gynhadledd 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 15 Ionawr 2013 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Evans, yr Arweinydd ac Aelod Arwain dros Ddatblygu Economaidd; Bobby Feeley, yr Aelod Arwain dros Ofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant; Hugh Irving, yr Aelod Arwain dros Gwsmeriaid a Chymunedau; Huw Jones, yr Aelod Arwain dros Dwrisiaeth, Hamdden ac Ieuenciad; Barbara Smith, yr Aelod Arwain dros Foderneiddio a Pherfformiad; David Smith, yr Aelod Arwain dros Dir y Cyhoedd, Julian Thompson-Hill, yr Aelod Arwain dros Gyllid ac Asedau, ac Eryl Williams, y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Arwain dros Addysg.

**Sylwedyddion:** y Cyngorwyr Raymond Bartley, Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, Bill Cowie, Meirick Lloyd Davies, Huw Hilditch-Roberts, Rhys Hughes, Pat Jones, Gwyneth Kensler, Margaret McCarroll, Win Mullen-James, Dewi Owens, David Simmons a Huw Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM); Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM), Cwsmeriaid (HW), Moderneiddio a Lles (SE); Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democratig (RGW); Pennaeth Cyllid ac Asedau (PM); Pennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden (JG); Rheolwr Rhaglen y Rhyl yn Symud Ymlaen (TB); Rheolwr Cyflenwi TGCh (LE), a Gweinyddwr y Pwyllgor (KEJ)

### 1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

### 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chodwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol nac o fuddiant sy'n rhagfarnu.

### 3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

### 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2012.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2012 yn gofnod cywir a'u llofnodi gan yr Arweinydd.

### 5 CYFLEUSTERAU ARFORDIROL Y RHYL

Cyflwynodd y Cyngorydd Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arwain dros Ddatblygu Economaidd, yr adroddiad yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo cynigion ar gyfer Cyfleusterau Arfordirol y Rhyl a gwaith brys i'r Tŵr Awyr. Roedd yr adroddiad yn cynnwys cynlluniau i gyfleusterau arfordirol y dref, gan edrych ar y cynnig dyfrol yn y dyfodol, yr Heulfan, Theatr y Pafiliwn a Phentref y Plant. Gwnaethpwyd argymhellion cychwynnol hefyd ar gyfer dyfodol Canolfan Nova, Prestatyn.

Dymunai'r Cyngorydd Evans egluro'r cyfeiriadau at Clwyd Leisure yn yr adroddiad, gan gynghori bod y Cyngor hefyd yn gyfrifol am y cynnig hamdden, a soniodd am yr anawsterau o ran cynnal yr Heulfan a buddsoddi ynddo, am resymau amrywiol. Roedd y cynigion yn arwydd o ddechrau oes newydd i'r Rhyl gan arwain at gynnig hamdden newydd, creu swyddi newydd ac ysgogi buddsoddiad preifat pellach yn y dref. Byddai datblygiad y prosiect yn mynd rhagddo gyda phartner datblygu'r Cyngor, Alliance Leisure, gyda phecyn cyflawn o brosiectau i ategu ei gilydd ac a fyddai o fudd i breswylwyr a thwristiaid.

Bu Rheolwr y Rhyl yn Symud Ymlaen yn rhoi cyflwyniad PowerPoint am y cynigion i'w hystyried yn codi o astudiaeth ddichonolrwydd gychwynnol o'r prosiectau. Ymhelaethodd ar -

- y cefndir yn arwain at yr adroddiad cyfredol gan gynnwys cyfeiriad at astudiaethau blaenorol a newidiadau allweddol ers hynny
- creu cynnig hamdden ddyfrol blaenllaw newydd gan gyfeirio at leoliad, dyluniad y cyfleuster, hamdden wlyb (cymysgedd o nofio ffurfiol a hamdden), ffitrwydd, caffi, dringo ac efallai chwaraeon traeth ynghyd â darluniadau o'r math o gyfleusterau ac adeiladau a fyddai'n cael eu cynhyrchu gan y prosiectau
- gwaith brys a oedd yn ofynnol i'r Tŵr Awyr ynghyd â dewisiadau'r dyfodol
- argymhelliaid i ddymchwel yr Heulfan a naill ai tirlunio'r safle, ceisio denu datblygiad gwesty, neu ddatblygu maes parcio newydd
- argymhellion i wella Theatr y Pafiliwn ac ystyried y potensial am dwf busnes gwredda a chynadredda
- cau Pwll presennol Canolfan Hamdden y Rhyl wedyn gyda'r Ganolfan yn gwasanaethu ysgolion/colegau ac anghenion chwaraeon lleol yn y dyfodol
- ystyriaethau ehangach Cynllun y Rhyl yn Symud Ymlaen gan gynnwys: adleoli'r parc sglefrio; datblygu gwesty newydd; gwella'r maes parcio tanddaearol a buddsoddi ym maes parcio Crescent Road ynghyd â dull rheoli gweithredol cyffredinol i gydlyn u hamdden ac adfywio, a
- chynigion am adolygiad penodol i ystyried dewisiadau'r dyfodol ar gyfer Canolfan Nova na fyddent yn tanseilio llwyddiant cynnig dyfrol a glan môr newydd y Rhyl.

Wrth ddod i ben, dywedodd Rheolwr y Rhyl yn Symud Ymlaen y gallai cynnig hamdden a dyfrol newydd chwarae rhan hanfodol yn y gwaith cyffredinol i adfywio'r llain arfordirol a'r Rhyl yn gyrchfan i ymwelwyr. Yn olaf, soniodd am y camau nesaf pe byddai'r Cabinet yn cymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad.

Roedd y Cabinet yn croesawu'r adroddiad yn fod o drawsnewid y Rhyl drwy becyn cydlynol o brosiectau a fyddai o fudd i breswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd. Cydnabuwyd y byddai'r cynigion yn hybu hyder a buddsoddiad y sector preifat, gan

greu cyfleoedd busnes a swyddi newydd. Amlygwyd hefyd y posibilrwydd i'r buddsoddiad hwnnw effeithio'n gadarnhaol ar Ganol Tref y Rhyl. Cyfeiriodd yr Aelodau at eu hatgofion a'u profiadau eu hunain o'r Rhyl yn gyrchfan glan môr prysur gan gydnabod bod yr Heulfan a arferai fod yn eiconig wedi gweld dyddiau gwell a bod angen atyniad newydd sy'n addas i'r 21ain ganrif. Wrth ystyried natur uchelgeisiol y cynigion, mynegodd yr aelodau eu barn am agweddu amrywiol ar yr adroddiad a manteisiwyd ar y cyfle i ofyn cwestiynau. Gofynnwyd am sicrhad am nifer o bethau hefyd fel a ganlyn –

- bod yr Heulfan yn dal i weithredu nes bod cyfleuster wedi'i agor yn ei lle
- na fyddai Canolfan Nova dan anfantais o ganlyniad i'r cynigion
- bod ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i gynnwys pwl 50 metr yn y manylebau er mwyn denu cystadlaethau
- na ddylid colli'r parc sglefrio fel cyfleuster ac y dylid ystyried ei adleoli yn ofalus o ystyried ei boblogrwydd
- bod angen i'r adeilad a'r cyfleusterau newydd fod yn ymarferol ac yn addas at ddiben, gyda chostau gweithredu a chynnal a chadw rhesymol
- sicrhau bod cynnig newydd y Rhyl yn cyfrannu at adfywio ehangach yn yr ardal, a Chanol y Dref yn benodol, a
- chywirdeb costau a ddarperir i'r prosiect a modelau cyllid.

Wrth ateb yr aelodau, dywedodd y swyddogion –

- fod y Cyngor wedi egluro ei fod yn dymuno i'r Heulfan ddal i weithredu cyhyd â phosibl nes bod unrhyw gynigion newydd yn cael eu datblygu
- bod gan Clwyd Leisure weledigaethau ar gyfer Canolfan Nova a bod cynlluniau clir i fynd ymlaen â'r rheini gydag aelodau Prestatyn
- darparwyd darluniad o'r modd y gellid gosod pyllau allan; roedd Alliance Leisure wedi nodi y byddai'n barod i'w hariannu a'i bod yn bwysig darparu digon o le pwll i fodloni'r galw. Gellid ystyried ymhellach cynnwys pwl 50 metr yn y cyfleuster pe dymunai'r aelodau
- cydnabuwyd bod y parc sglefrio'n gyfleuster pwysig a byddai safleoedd amgen priodol yn cael eu hystyried
- ei bod yn bwysig darparu strwythur eiconig a fyddai'n cael ei gydnabod ac a fyddai'n ysgogi adfywio ond bod yr angen am fforddiadwyedd yn ystyriaeth allweddol yn ei ddyluniad i sicrhau cyfleuster cynaliadwy i'r dyfodol
- bod y Cyngor wedi buddsoddi'n synhwyrol yn ei stoc hamdden ei hun a oedd wedi'i chynnal i safon dda, a fyddai'n cael ei chynnwys mewn unrhyw broiectau yn y dyfodol
- dim ond costau dangosol a oedd wedi'u darparu ar hyn o bryd a byddai cam nesaf y broses yn darparu gwir gostau'r prosiectau
- am fod Theatr Fach y Rhyl yn gyfleuster cymunedol, nid oedd wedi'i hystyried yn rhan o'r cynnig theatr a oedd yn canolbwytio ar ddichonolrwydd masnachol
- roedd gwaith wedi'i wneud gyda Grŵp Busnes y Rhyl a Chyngor y Dref i gyfarwyddo dyfodol Canol y Dref a oedd yn amgylchedd heriol iawn
- roedd gofynion parcio ceir yn cael eu hystyried a byddai'r achos busnes yn ystyried y ffordd orau o ddarparu lleoedd parcio ac yn ystyried a fyddai'n gonesiynol

- cadarnhawyd bod y partner datblygu, Alliance Leisure, yn adolygu cyfleusterau hynny'r Cyngor nad oeddent yn cael eu defnyddio'n ddigonol neu a allai gynhyrchu mwy o incwm.

Pwysleisiodd y Cabinet hefyd fod angen sicrhau dichonolrwydd economaidd y prosiect i'r dyfodol a thrafodwyd gyda'r swyddogion y ffrydiau ariannu posibl a fyddai'n cael eu cynnwys yn yr achos busnes. Bu'r Pennaeth Cyllid ac Asedau'n atgoffa'r aelodau nad oedd yn cytuno i'r prosiect heddiw ac y byddai'n rhaid i achos busnes manwl gael ei gyflwyno a'i adolygu'n ofalus cyn y gellid gwneud unrhyw benderfyniad am y prosiect. Amlygwyd hefyd fod angen cadw cyflogaeth yn lleol. Rhybuddiodd y Cynghorydd Hugh Irving y gellid gosod amodau ynghlwm wrth gyllid grant, a bod angen ei ystyried yn ofalus. Roedd cyllid ychwanegol eisoes wedi'i sicrhau gan Lywodraeth Cymru er mwyn archwilio dichonolrwydd materion parcio ceir a thir y cyhoedd a oedd yn gysylltiedig â'r prosiect.

Yn y man hwn, gwahoddodd yr Arweinydd y rheini nad ydynt yn aelodau Cabinet i siarad ac roedd yn benodol o awyddus i glywed barn Aelodau'r Rhyl. Dywedodd y Cynghorwyr Joan Butterfield a David Simmons eu bod yn llwyr gefnogi'r cynigion yn gam cadarnhaol ymlaen ar gyfer dyfodol y Rhyl, gan ddisgrifio buddion y cynigion i breswylwyr a thwristiaid ac o ran adfywio ehangach y Rhyl. Roedd Aelodau'r Rhyl wedi cael gwybod yn llawn am y cynigion ac roeddent yn awyddus i'r cynlluniau cyffrous fynd ymlaen i'r cam nesaf. Roedd aelodau eraill yn falch o nodi y byddai costau refeniw a chynnal a chadw parhaus yn ystyriaeth fawr yn natblygiad y cyfleusterau newydd. Cafodd y traeth ei gymeradwyo hefyd yn fantais enfawr ac amlygwyd bod angen sicrhau ei welededd a'i bod yn hawdd cael ato, ynghyd â dull mwy cyfannol er mwyn integreiddio cynnig newydd y Rhyl gyda phrosiectau eraill yno er mwyn cynnig pecyn cyfan. Mewn ymateb i'r sylwadau hynny a chwestiynau pellach, bu i'r Aelod Arwain a'r Swyddogion –

- gytuno bod dull cydgysylltiedig ar goll yn y gorffennol ond bod llawer o waith wedi'i wneud yn ddiweddar i ddarparu dull mwy integredig
- ymhelaethu ar ddewisiadau posibl i gynnwys gwesty yn rhan o'r cynigion ynghyd â dewisiadau parcio ceir a fyddai'n cael eu harchwilio'n llawn yng ngham 2
- cydnabod y cymhlethdodau sydd ynghlwm wrth ddatblygu cyfleusterau felly gan gynggori bod arolygon strwythurol wedi'u cynnal yn ystod yr astudiaeth ddichonolrwydd gydag ymchwiliadau pellach i'w cynnal yng ngham 2
- cynghori y byddai'r broses gyllido'n cael ei hystyried ar ôl costio'r prosiect yn llawn, ac y byddai'r cyllid yn debygol o ddod o amrywiaeth o ffynonellau
- cadarnhau bod y prosiect yn fenter enfawr y byddai angen ei chwblhau cyn y byddai mentrau mawr eraill yn cael eu hystyried, fel yr awgrym am drêñ stêm o Ganolfan Nova i'r Rhyl
- gellid rhoi gwybod i'r aelodau am y cynigion yn Sesiwn Wybodaeth y Cyngor pe dymunid a gellid gwneud y prosiect yn destun craffu i'w ystyried ymhellach; disgrifiwyd y broses a'r amserlenni i weithredu'r cynigion yn yr adroddiad.

Soniodd y swyddogion am benodi'r partner datblygu, Alliance Leisure, yn ddull arloesol o reoli stoc hamdden ac am y gwelliannau a'r buddion sylweddol a gyflawnwyd o ganlyniad a ddylai rhoi hyder i'r aelodau yn y cynigion. Ychwanegodd y Cynghorydd Huw Jones fod awdurdodau lleol eraill yn ystyried cau neu

drosglwyddo cyfleusterau hamdden ac amlygodd y ffordd yr oedd Sir Ddinbych wedi elwa ar y dull arloesol hwn a oedd bellach yn cael ei ystyried gan eraill gan ddisgwyl dirprwyaeth o Gyngor Dinas Caerdydd. Manteisiodd y Cyngropydd Jones hefyd ar y cyfle i ddiolch i'r tîm Hamdden a thîm y Rhyl yn Symud Ymlaen am eu gwaith caled i ddatblygu'r cynigion.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at yr argymhellion ac, yng ngoleuni'r gefnogaeth i ystyried pwllnofio 50 metr yn yr astudiaeth ddichonolwydd, cynigiwyd hyn fel gwelliant gan y Cyngropydd Julian Thompson Hill ac fe'i heiliwyd gan y Cyngropydd Huw Jones. Ar fwrw'r bleidlais –

**PENDERFYNWYD bod y Cabinet –**

- (a) *yn cymeradwyo'r prosiectau arfaethedig mewn egwyddor a datblygiad Cam 2 achos busnes/cyflawnhad a ffioedd Cam 2 hyd at £30,000 er mwyn:*
- *symud ymlaen â datblygiad y dyluniad a'r astudiaeth ddichonolwydd i'r ganolfan ddyfrol newydd yn y lleoliad arfaethedig wrth ymyl y pwll padlo presennol;*
  - *cynnwys ystyriaeth benodol i bwll nofio 50 metr yn yr astudiaeth ddichonolwydd;*
  - *ymgorffori cynaliadwyedd strwythur y Tŵr Awyr yn y cynlluniau hyn a datblygu cynigion am ei ddefnyddio/ei wella yn y dyfodol*
  - *cydnabod egwyddor dymchwel strwythur presennol yr Heulfan gan arwain at ddatblygu dyluniadau a dichonolwydd ar gyfer gwelliannau i Theatr y Pafiliwn;*
  - *cytuno i ddatblygu'r pecyn cyfan (fel un prosiect) i achos busnes manwl;*
  - *penodi Alliance Leisure Ltd dan delerau'r cytundeb fframwaith presennol i gynorthwyo i ddatblygu'r prosiect*
  - *sicrhau bod y dull yn cael ei ddatblygu ar y cyd â chynlluniau ehangach y Rhyl yn Symud Ymlaen a sicrhau effaith y prosiect ar y cynlluniau hynny;*
  - *sefydlu Bwrdd Prosiect i fonitro a chyfarwyddo cynnydd, a*
- (b) *cymeradwyo gwaith brys i'r Tŵr Awyr i leihau'r risgiau iechyd a diogelwch presennol ac i ddiogelu'r strwythur – hyd at £35,000 o gyllideb uchaf.*

**6 CYFLAWNIAU CYNLLUNIAU TREF AC ARDAL SIR DDINBYCH**

Cyflwynodd y Cyngropydd Hugh Evans, yr Arweinydd a'r Aelod Arwain dros Ddatblygu Economaidd, a'r Cyngropydd Huw Jones, yr Aelod Arwain dros Dwristiaeth, Hamdden ac Ieuenctid, yr adroddiad ar y cyd yn gofyn i'r Cabinet gadarnhau'r broses ar gyfer cyfuno ac ehangu'r Cynlluniau Tref a chymeradwyo draniad cychwynnol cyllid i flaenoriaethau a nodwyd yn 2012/13 a 2013/14.

Roedd yr adroddiad yn nodi mesurau a gyflwynwyd i fynd i'r afael ag anghenion a blaenoriaethau cymunedau llai o faint a mwy gwledig, gan gynnwys ehangu'r Cynlluniau Tref yn Gynlluniau Ardal ehangach (gan gynnwys penodi Hyrwyddwyr Tref a chymorth swyddog a sefydlu Grŵp Cydlynus Tref). Bu'r Cyngropydd Huw Jones hefyd yn ymhelaethu ar ei rôl yn gofalu am yr agwedd datblygu gwledig i sicrhau bod yr anghenion yn yr ardaloedd gwledig hefyd yn cael sylw, ac ar y

gwaith a wnaethpwyd hyd yma er mwyn nodi ardaloedd â blaenoriaeth yn y cymunedau hynny. Tynnwyd sylw'r Aelodau i'r cynigion cyllid i weithredu blaenoriaethau a nodwyd, ynghyd ag argymhellion y Grŵp Cydlynau Cynllun Tref ar ddyraniad cychwynnol y cyllid fel y'i disgrifir yn yr adroddiad.

Wrth ystyried yr adroddiad, pwysleisiodd y Cabinet mor bwysig oedd cyflwyno dull effeithiol o fynd i'r afael ag anghenion y cymunedau gwledig a thrafododd y trefniadau llywodraethu wrth ddatblygu'r cynlluniau tref yn gynlluniau ardal ehangach, gan amlygu buddion y trefniadau hynny i drefi a chymunedau fel ei gilydd. Soniodd yr Aelodau hefyd am y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran cyflenwi'r cynlluniau tref i'w hardaloedd unigol drwy'r Grwpiau Ardal Aelod a'u perthynas â'r cymunedau o'u cwmpas. Trafodwyd y materion canlynol yn fanylach –

- bu'r aelodau'n ystyried a ddylid categoriddio Bodelwyddan fel tref yng ngoleuni'r cynigion a nodwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) a'r niferoedd mawr a gyflogir yno. Cydsyniwyd y dylid ystyried y peth ymhellach ar ôl gwneud penderfyniad terfynol ar fabwysiadu'r CDLI
- cytunodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol i gylchredeg rhestr o gymunedau a'r trefi y byddent yn gysylltiedig â hwy
- i roi sicrhad ynglŷn â chynnydd, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol y byddai adroddiadau cynnydd am bob tref yn cael eu llunio
- byddai'r Arweinydd a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol yn mynd i bob Grŵp Aelod Ardal i drafod cyflenwi'r cynlluniau
- roedd y Prif Weithredwr yn teimlo bod angen i'r strwythur cynllun tref cyfredol esblygu'n ardaloedd mwy rhesymegol i ymdrin â'r sir gyfan ac awgrymodd y dylid amlygu'r rhain yn y penderfyniad
- roedd y Cyngorydd Eryl Williams yn teimlo y byddai'n fuddiol sefydlu Grŵp Ardal Wledig, yn ogystal â chynnwys cymunedau gwledig mewn Cynlluniau Ardal ehangach, er mwyn cynhyrchu syniadau, arfer da a dysgu am yr hyn sy'n digwydd mewn ardaloedd eraill. Awgrymodd yr Arweinydd ailsefydlu'r Grŵp Gwledig blaenorol a gofynnodd i'r Cyngorydd Huw Jones fynd â'r mater yn ei flaen
- nodwyd y byddai ardaloedd ward penodol sy'n cynnwys cymunedau gwledig yn debygol o gael eu cysylltu â gwahanol drefi, a allai achosi anhawster ac a amlygyd yn faes pryder. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol fod angen ystyried ffiniau sefydiadol y Cyngor a'r rheini a wneir gan y cymunedau i sicrhau'r pontio mwyaf priodol o Gynlluniau Tref i Gynlluniau Ardal
- cytunodd y Cabinet y bydd adroddiad cynnydd am weithredu'r trefniadau a ddisgrifiwyd yn yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'w gyfarfod ym mis Mai

Cymeradwyodd y Cabinet y cynigion cyllid i weithredu blaenoriaethau ac roedd yn falch o nodi bod cyllid wedi'i atal i fynd i'r afael â blaenoriaethau a nodwyd wedyn yn y cymunedau gwledig. Ychwanegodd y Cyngorydd Joan Butterfield y byddai cyllid yn cael ei geisio hefyd am brosiectau a nodir yng Nghynllun Cyflenwi'r Rhyl yn Symud Ymlaen pan fydd wedi'i gwblhau. Ar y cyfan, sicrhawyd y Cabinet fod y trefniadau i ehangu'r Cynlluniau Tref yn Gynlluniau Ardal fel y disgrifiwyd yn yr adroddiad yn darparu dull priodol o integreiddio anghenion y cymunedau llai o faint

a gwnaethpwyd gwelliant i'r argymhelliaid i egluro'r trefniadau hynny. Ar fwrw pleidlais -

### **PENDERFYNWYD –**

- (a) *datblygu'r trefniadau a sefydlwyd i gyfuno Cynlluniau Tref i'w hehangu'n Gynlluniau Ardal ehangach sy'n ymgorffori Hyrwyddwyr Cynllun Tref, y Grŵp Cydlynus Cynllun Tref a'r cymorth swyddog cysylltiedig*
- (b) *cadarnhau'r cyllid sydd ar gael i weithredu'r blaenoriaethau yn y Cynlluniau Tref a'r Cynlluniau Ardal ehangach yn dod o'r ffynonellau canlynol:*
  - *Cyllid blaenoriaeth gorfforaethol ar gyfer 'Gwella'r economi leol'*
  - *Cyllideb refeniw cyllid cymunedol*
  - *Dyraniad cyfalaf arian cyfatebol a chyfalaf cymunedol*
- (c) cymeradwyo'r argymhellion gan Grŵp Cydlynus Cynllun Tref ar ddyraniad cychwynnol o gyllid yn 2012/13 a 2013/14.

## **7 COFRESTRU AWTOMATIG AR GYNLLUNIAU PENSIWN (CYFRIFOLDEB CYFLOGWR A GOBLYGIADAU COST)**

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad yn disgrifio ymateb arfaethedig y Cyngor i ofynion Deddf Pensiynau 2008, dewisiadau gweithredu ac argymhellion y gofynnwyd i'r Cabinet eu cymeradwyo.

Soniwyd wrth yr Aelodau am ddyletswydd cyflogwyr i gofrestru gweithwyr cymwys yn awtomatig ar gynllun pensiwn gweithlu sy'n cymhwys o ac am y mesurau sy'n cael eu gweithredu gan y Cyngor er mwyn bodloni'r gofynion newydd. Roedd yn rhaid i'r Cyngor ddechrau cofrestru staff yn awtomatig yn effeithiol o 1 Mai 2013 (y "dyddiad llwyfannu") er gallai cyflogwyr ddefnyddio gohiriad trosiannol i'r gweithredu llawn tan 1 Hydref 2017. Ar ôl y dyddiad llwyfannu, byddai cyflogwyr cymwys newydd yn cael eu cofrestru adeg cymhwyster ac ni fyddent yn cael eu gohirio. Eglurwyd y byddai cofrestru awtomatig yn cyflwyno goblygiadau ariannol i'r Cyngor a oedd yn anodd eu rhagweld ond y byddai cymhwys o gohiriad trosiannol yn lleihau'r effaith ariannol uniongyrchol. Roedd y rheolau mewn perthynas â staff wrth gefn ac achlysurol nad ydynt yn addysgu hefyd wedi newid, gan ddod yn fwy cymhleth, a gallai'r baich gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r newidiadau fod yn sylweddol gyda dewisiadau'n cael eu hystyried i liniaru'r effaith. Yn olaf, tynnwyd sylw'r aelodau i'r camau a gymerwyd hyd yma i ymateb i'r rheoliadau newydd ynghyd â dewisiadau gweithredu arfaethedig i'r dyfodol.

Bu'r Cynghorydd David Smith yn holi aelodau etholedig am y sefyllfa a dywedwyd wrtho y gallai cynghorwyr ddewis ymuno â'r cynllun pensiwn o hyd os ydynt yn gymwys, heblaw bod y ddeddfwriaeth yn newid o gwbl yn y dyfodol. Gofynnodd y Cynghorydd Meirick Davies am eglurhad o effaith y newidiadau ar Gynghorau Tref a Chymuned ac amlygodd ei bryderon y gallai fod yn ataliol o ran cost i'r cynghorau hynny gyflogi clercod o ganlyniad. Dywedodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau fod gan gyflogwyr llai o faint ddyletswydd hefyd (yn nes ymlaen) i gofrestru cyflogwyr os ydynt yn gymwys a'i bod yn debygol y byddai angen iddynt reoli eu gwasanaethau

cyflogres eu hunain yn y dyfodol o ganlyniad. Byddai trafodaethau pellach yn cael eu cynnal gyda Gwasanaeth Cyflogres y Cyngor ynghylch yr effaith ar sefydliadau eraill sy'n defnyddio'r gwasanaethau, gan gynnwys Cyngorau Tref a Chymuned, a sut y byddai'n cael sylw.

**PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn cymeradwyo'r argymhellion –

- (a) i ddechrau cofrestru'n awtomatig yr holl staff newydd neu'r rheini sy'n dod yn gymwys yn y cynllun pensiwn perthnasol o 1 Mai 2013;
- (b) i ohirio cofrestru awtomatig i staff a benderfynodd yn flaenorol beidio ag ymuno â'r cynllun perthnasol tan 1 Hydref 2017, ac
- (c) i nodi'r goblygiadau cost sy'n gysylltiedig â gweithredu'r rheoliadau newydd.

## 8 CYLLIDEB 2013/14

Cyflwynodd y Cyngorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad yn disgrifio'r cynigion cyllideb ar gyfer 2013/14 ac yn arwain at 2% o gynnydd yn lefel y Dreth Gyngor. Roedd Cynigion Arbed Cyllideb ar gyfer 2013/14 (Atodiad 1); Grantiau a drosglwyddwyd i'r Setliad Cyffredinol 2013/14 (Atodiad 2), a Chyllideb Sir Ddinbych 2013/14 (Atodiad 3) wedi'u gosod ynghlwm wrth yr adroddiad.

Soniwyd wrth yr Aelodau am setliad terfynol is na'r disgwyl gan Lywodraeth Cymru, a oedd yn cynnwys toriad mewn cyllid cyfalaf a oedd yn golled sylwedol. Amlygwyd y goblygiadau ar y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ynghyd â'r arbedion a oedd yn ofynnol dros y tair blynedd nesaf a'r rhagolygon diweddaraf o ran pwysau a nodwyd yn flaenorol. Cyfeiriwyd hefyd at -

- ddisgwyliad Llywodraeth Cymru y byddai Cyllidebau Ysgolion a Gofal Cymdeithasol yn cael eu gwarchod rhag arbedion a fyddai'n rhoi straen ychwanegol ar wasanaethau eraill a oedd yn gorfol dod o hyd i arbedion ychwanegol i wneud iawn [ar gyfer 2013/14 roedd tua 56% o'r gyllideb wedi'i neilltuo a'i gwarchod]
- goblygiadau ariannol sy'n codi o'r Cynllun Cymorth Treth Gyngor
- y diweddaraf am ganlyniadau'r gweithdai cyllideb a gynhalwyd iaelodau ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2012 (ynglŷn ag arbedion, blaenoriaethau a'r dreth gyngor)
- yn seiliedig ar y cynigion cyfredol, roedd y cynnydd canlyniadol yn y Dreth Gyngor yn 2% a'r dybiaeth sylfaenol ar gyfer blynnyddoedd y dyfodol oedd y byddai'r Dreth Gyngor yn dal i godi tua 2%

Wrth ystyried yr adroddiad, roedd yr aelodau'n falch o nodi'r tryloywder yn y broses gosod cyllideb gyda digonedd o gyfle i'r aelodau gyfrannu. Canmolwyd hefyd y dull dychmygus o reoli cyllid mewn adegau ariannol mor heriol. Mewn ymateb i gwestiynau, dywedodd y Cyngorydd Thompson-Hill a'r Pennaeth Cyllid ac Asedau

- er gwaethaf gwarchod cyllidebau ysgolion a gofal cymdeithasol, roedd disgwyli o hyd i'r gwasanaethau hynny wneud arbedion effeithlonrwydd ond byddent yn cael eu hail-fuddsoddi yn y gwasanaeth hwnnw
- roedd y rhan fwyaf o arbedion cydweithio wedi'u tynnu allan o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig am na ellid eu cyflenwi, a oedd yn rhoi pwysau ar arbedion i'w gwneud yn fewnol
- roedd goblygiadau enfawr posibl yn codi o'r Bwrdd Iechyd yn ad-drefnu gwasanaethau iechyd ond nid oedd llawer yn hysbys ar hyn o bryd
- roedd y cynigion cyllideb cyfredol yn dangos bod yr awdurdod yn buddsoddi yn ei flaenoriaethau ac yn gwarchod gwasanaethau rheng flaen wrth gadw'r Dreth Gyngor mor isel â phosibl
- cadarnhawyd bod ardoll y Gwasanaeth Tân yn £70k islaw'r lefel a gynlluniwyd ond nad oedd praecept yr Heddlu wedi'i osod eto (dywedodd y Cyngħorydd Cowie y byddai Comisiynydd yr Heddlu'n cyflwyno cynigion cyllideb i'r Panel Trosedd yr wytnos ganlynol)
- byddai cyfeiriad at yr Eisteddfod Genedlaethol yn y cynigion arbedion yn cael ei ddileu gan fod y cyllid sylfaenol yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru.

Cyfeiriodd y Cyngħorydd Eryl Williams at heriau ariannol mwy i'w hwynebu gan awdurdodau lleol yn y dyfodol ac at ansicrwydd ynglŷn â chyllid y dyfodol. Cynigiodd gynyddu lefel y Dreth Gyngor ar gyfer 2013/14 i 2.5% gyda'r refeniw ychwanegol yn cael ei neilltuo mewn Cronfa Gymorth Refeniu a fyddai'n cael ei defnyddio i wneud iawn am anawsterau ariannol a fyddai'n wynebu'r awdurdod yn y dyfodol. Roedd yn teimlo y byddai dull felly'n ddoeth yn yr hinsawdd economaidd gyfredol ac y byddai'n helpu i ddiogelu rhag cynyddu'r Dreth Gyngor yn ddramatig eto yn y dyfodol. Eiliwyd y cynnig gan y Cyngħorydd Huw Jones. Wrth ystyried y cynnig, cytunodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau y byddai'r Cyngor yn dal i wynebu heriau ariannol am gryn dipyn eto ond dywedodd fod tybiaethau rhesymol wedi'u cynnwys gyda'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig i fynd i'r afael â phwysau wrth iddynt ymddangos i'r awdurdod. Siaradodd y Prif Weithredwr yn erbyn y cynnig a theimlai ei fod yn anfon y neges anghywir pe byddai'r Dreth Gyngor yn cael ei gosod ar lefel uwch nag yr oedd ei hangen, gan ychwanegu bod arian wedi'i neilltuo mewn cronefeydd a balansau i ymdrin ag argyfyngau posibl yn y dyfodol. Dywedodd fod 2% yn lefel gyraeddadwy a chyfrifol. Amlygodd y Cyngħorydd Barbara Smith fod gan Sir Ddinbych un o'r cyfraddau uchaf o'r Dreth Gyngor a theimlai y dylid mynd i'r afael â'r lefel gyda'r bwriad o gydraddoldeb ag awdurdodau eraill. Er ei fod yn cydnabod mai'r dybiaeth wreiddiol at ddibenion cynllunio ariannol oedd 2.75% o gynnydd, roedd yr Arweinydd yn teimlo y dylid fod wedi dadlau am y cynnig i gynnwys dull diogelu ariannol i'r dyfodol yn gynharach yn y broses cynllunio cyllideb. Roedd yn hyderus fod y broses gosod cyllideb yn gadarn ac yn gyraeddadwy. Amlygodd y Cyngħorydd Hugh Irving fod llawer o breswylwyr yn cael trafferthion ariannol yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni a chytunodd fod lefel o 2% yn rhesymol. Roedd yn credu y byddai'r Cyngor yn cael ei feirniadu pe byddai'n gosod lefel uwch o'r Dreth Gyngor nag yr oedd ei hangen.

Ar fwrw pleidlais, COLLWYD y gwelliant i gynyddu lefel y Dreth Gyngor 2.5% a DERBYNIWYD y cynnig gwreiddiol i gynyddu'r lefel 2%.

**PENDERFYNWYD** bod y Cabinet –

- (a) yn cefnogi'r cynigion cyllideb ar gyfer 2013/14 fel y'u dangosir yn yr atodiadau ac yn argymhell yn unol â hynny i'r Cyngor llawn, a
- (b) yn argymhell y 2.0% canlyniadol o gynnydd yn lefel y Dreth Gyngor ar gyfer 2013/14 i'r Cyngor llawn.

[Ymatalodd y Cyngorwyr Huw Jones ac Eryl Williams rhag pleidleisio ar benderfyniad (b) uchod.]

## 9 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cyngorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad yn disgrifio'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd mewn perthynas â'r strategaeth gyllideb y cytunwyd arni. Rhoes grynodeb byr o sefyllfa ariannol y Cyngor fel a ganlyn -

- rhagwelwyd £453k o danwariant ar draws cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol gyda'r rhagolwg ar gyfer ysgolion yn symudiad cadarnhaol ar £121k o falansau
- cyflawnwyd £2.834m (82%) o arbedion y cytunwyd arnynt, gyda £584k (17%) yn cael ei symud ymlaen a £25k (1%) yn cael ei ohirio hyd y flwyddyn nesaf
- amlygwyd amrywiadau allweddol o dargedau arbedion neu gyllidebau a manylion cyllidebau gwasanaeth unigol
- rhoddyd yr wybodaeth ddiweddaraf gyffredinol am y Cynllun Cyfalaf a'r Cyfrif Refeniw Tai.

Nodwyd na fu llawer iawn o symudiad ariannol ers yr adroddiad diwethaf i'r Cabinet, am fod cyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd wedi torri ar draws.

**PENDERFYNWYD** nodi'r targedau cyllidebau ac arbedion ar gyfer y flwyddyn a'r cynnydd mewn perthynas â'r strategaeth gyllideb y cytunwyd arni.

## 10 BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET

Cyflwynodd y Cyngorydd Hugh Evans Flaenraglen Waith y Cabinet i'w hystyried.

**PENDERFYNWYD** nodi Blaenraglen Waith y Cabinet.

## GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD** dan Adran 100A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod am yr eitemau busnes canlynol ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

## 11 DYFARNU CYTUNDEB FFRAMWAITH AR GYFER DARPARU DYFEISIAU AML-SWYDDOGAETH

Cyflwynodd y Cyngorydd Barbara Smith yr adroddiad cyfrinachol yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddyfarnu'r Fframwaith Dyfeisiau Aml-swyddogaeth i gyflenwr a enwyd ar y sail y byddai fframwaith a ddefnyddir gan gyrrf corfforaethol

ac ysgolion yn gwneud arbedion sylweddol; roedd costiadau llawn yn yr adroddiad. Eglurodd fod Dyfeisiau Aml-swyddogaeth yn ddyfeisiau rhwydwaith mawr a allai argraffu, sganio, llungopio ac e-bostio dogfennau ac y gallent felly ymgorffori gofynion llungopio ac argraffu'r awdurdod. Roedd y contract am gyfnod o bum mlynedd.

Dyweddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles fod rhesymoli argraffwyr yn un o nifer o brosiectau moderneiddio sydd ar y gweill. Byddai effaith y newid yn sylweddol i rai gwasanaethau ac amlygodd fod angen hyfforddiant ac arweiniad er mwyn cefnogi staff. Wrth gefnogi'r argymhelliaid, bu'r Cynghorydd Julian Thompson-Hill yn cymeradwyo'r cydweithio rhwng TGCh a Chaffael. Ychwanegodd y dylid argymhelliaid hefyd fod ysgolion yn defnyddio'r contract yng ngoleuni'r arbedion i'w gwneud. Roedd y Prif Weithredwr yn credu y dylai fod disgwyliad i ysgolion ddefnyddio'r contract i arbed effeithlonwydd. Amlygodd y Cynghorydd Eryl Williams nad oedd cyllidebau TGCh i ysgolion llai o faint yn caniatáu iddynt ddatblygu gwasanaethau TG ac na fyddent efallai'n gallu fforddio ymuno â'r cynllun. Gofynnodd am gael gwybod rhagor am y ffordd y gellid gweithredu'r contract mewn ysgolion.

**PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn awdurdodi dyfarnu'r fframwaith Dyfeisiadau Aml-swyddogaeth i'r cyflenwr a enwyd yn yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.05pm.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

<b>Adroddiad i'r:</b>	<b>CABINET</b>
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	<b>19 Chwefror 2013</b>
<b>Aelod Cabinet Arwain:</b>	<b>y Cyngorydd Julian Thompson-Hill</b>
<b>Swyddog Arwain:</b>	<b>Paul McGrady, Pennaeth Cyllid ac Asedau</b>

**Teitl:** **Adroddiad Cyllid**

## 1 Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Yn yr adroddiad, rhoir manylion arbedion a chyllideb refeniw'r Cyngor fel y cytunwyd arnynt ar gyfer 2012/13 fel ar ddiwedd mis Ionawr 2013. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf gryno am y Cynllun Cyfalaf. Mae adroddiad ar wahân sy'n ymdrin â'r Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai ar agenda'r Cabinet y mis hwn.

## 2 Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am sefyllfa ariannol gyfredol y Cyngor.

Ceisio cymeradwyaeth i'r argymhellion a wnaethpwyd gan y Grŵp Buddsoddi Strategol.

## 3 Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau'n nodi'r targedau cyllidebau ac arbedion am y flwyddyn a'r cynnydd mewn perthynas â'r strategaeth gyllideb y cytunwyd arni.

Bod yr Aelodau'n cytuno i ariannu'r gwaith dichonoldeb mewn perthynas ag Ysgol Uwchradd y Rhyl ac Ysgol Gymunedol Bodnant, Prestatyn.

## 4 Manylion yr adroddiad

Cyflwynir rhagolwg diweddaraf y gyllideb refeniw yn **Atodiad 1** a dengys £631k (£435k fis diwethaf) o danwariant ar draws cyllidebau corfforaethol a gwasanaeth, sy'n cynrychioli 0.55% o amrywiant ar draws y gyllideb net gyfan. Mae'r sefyllfa i ysgolion yn rhagweld symudiad net cadarnhaol ar £286k o falansau (£121k fis diwethaf) ar gyllidebau dirprwyedig a £161k ar gyllidebau ysgolion heb eu dirprwyo.

Mae'r crynodeb Cyfrif Refeniw Tai hefyd wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 er gwybodaeth ond cronfa ar wahân yw hon ac nid yw'n rhan o brif gyllideb refeniw'r cyngor.

Yn **Atodiad 2** i'r adroddiad hwn, ceir yr wybodaeth ddiweddaraf sy'n dangos cynnydd mewn perthynas â'r arbedion a'r pwysau y cytunwyd arnynt yn rhan o broses gosod cyllideb 2012/13. I gyd, cytunwyd i £3.443m o arbedion net; hyd yma, cyflawnwyd £3.102m (90%), dosbarthwyd bod £316k (9%) ar waith a gohiriwyd £25k (1%) tan y flwyddyn nesaf. Mae'r gohirio'n berthnasol i arbedion oherwydd rhesymoli argraffyddion. Ystyrir bod yr eitemau sy'n weddill a ddosbarthir yn rhai sydd 'ar waith' i gyd yn gyraeddadwy, ond yn y rhan fwyaf ohonynt mae gofyn dadansoddi gweithgarwch blwyddyn gron i asesu'n iawn a ydy'r mesur arbed a restrwyd wedi'i gyflawni mewn gwirionedd.

## 5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae rheolaeth effeithiol ar gyllidebau refeniw a chyfalaf y cyngor a chyflenwi'r strategaeth gyllideb y cytunwyd arni yn sail i weithgarwch ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

## 6 Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Defnyddir yr adran hon o'r adroddiad i amlygu unrhyw amrywiannau allweddol o'r targedau arbedion neu gyllideb, neu risgau neu arbedion ychwanegol posibl a allai godi drwy gydol y flwyddyn, ac i roi'r wybodaeth ddiweddaraf fwy cyffredinol am y Cynllun Cyfalaf a'r Cyfrif Refeniw Tai. Disgrifir isod y meysydd y mae gofyn eu hegluro ymhellach.

### Cyllidebau Gwasanaeth

**Perfformiad a Chynllunio Busnes** – rhagwelir bellach y bydd yn tanwario £26k ac mae hyn yn berthnasol i falansau heb eu hymrwymo a ddygydd ymlaen o 11/12. Fodd bynnag, gellid defnyddio rhan o hwn i ariannu cynigion am adnoddau rheolwr rhaglen ychwanegol yn ystod y flwyddyn.

**Gwasanaethau Oedolion a Busnes** - rhoir gwybod ar hyn o bryd fod alldro 2012/13 yn y Gwasanaethau Oedolion a Busnes yn gyllideb sy'n adenill costau, er rhagwelir ar hyn o bryd tua £106K o orwariant (sydd wedi gostwng o'r £180K a grybwylwyd fis diwethaf). Yn rhan o'r strategaeth gyllideb y cytunwyd arni (a chadarnhawyd hyn hefyd mewn cyfarfodydd Herio Gwasanaeth blaenorol) gwneir iawn am unrhyw orwariant terfynol drwy ddefnyddio Cronfa Wrth Gefn Cefnogi Pobl yn 12/13. Mae'r gorwariant a ragwelir wedi'i leihau ar ôl gwneud adolygiad manwl o bob maes gwariant ar ôl y broses ddiweddar o ail-alinio'r gyllideb ar draws yr Adran, a hefyd gan fod incwm o gyfraniadau cleientiaid at wasanaethau wedi rhagori ar y targedau a benwyd wrth osod y gyllideb ac oherwydd oedi wrth lenwi swyddi a ddaeth yn wag yn ddiweddar.

**Gwasanaethau Priffyrrd a'r Amgylchedd** – mae'r adroddiad cyfredol wedi uno llinellau cyllideb gwasanaethau blaenorol Priffyrrd a Seilwaith a'r Amgylchedd. Fis diwethaf, roedd Priffyrrd yn rhagweld £38k o danwariant ond mae hyn wedi newid i £14k o orwariant y mis hwn. Mae'r prif symudiad yn

berthnasol i gost ychwanegol bosibl mewn cludiant ysgol. Fodd bynnag, yn y balans a ddygwyd ymlaen o 2011/12, mae tua £67k heb ei ymrwymo'n bendant eto i gynlluniau. Tybir y bydd hwn yn cael ei ddefnyddio i ariannu unrhyw bwysau ac, yn ôl pob tebyg, y bydd yn arwain at danwariant cyn diwedd y flwyddyn. Mae sefyllfa Gwasanaethau'r Amgylchedd yn debyg i'r sefyllfa y rhoddwyd gwybod amdani fis diwethaf (£110k o danwariant).

**Gwasanaethau Plant a Theuluoedd** – ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd yr alldro'n £80k o danwariant (£60k fis diwethaf). Mae'r newid cadarnhaol yn berthnasol i effaith gwrandawiad tribynwllys yn dod i ryw £20k yn llai nag y caniatawyd ar ei gyfer. Gallai'r tanwariant terfynol gynyddu oherwydd darparwyd ar gyfer nifer o bethau yn yr alldro sydd yn dal i'w penderfynu neu eu gweithredu cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae cyfanswm y rhain tua £110k ac mae'n cynnwys anghydfod gyda'r GIG am gyfraniadau at becyn gofal (£76k).

**Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden** – ar hyn o bryd, rhagwelir £11k o orwariant bach (adennill costau fis diwethaf) sy'n bennaf oherwydd incwm a gollwyd mewn canolfannau hamdden yn ystod llifogydd mis Tachwedd a hefyd oherwydd y tywydd garw diweddar a arweiniodd at gau'r meysydd pob tywydd am ychydig ddiwrnodau yn ystod mis Ionawr. Mae'r Adran wedi etifeddu dau faes gwasanaeth sydd wedi gorwario'n sylweddol yn hanesyddol yn ystod blynnyddoedd blaenorol (Theatr Pafiliwn y Rhyl a Phafiliwn Llangollen) a'r arwyddion diweddaraf yw y bydd y ddau gyfleuster hyn yn cadw o fewn eu cyllideb yn y flwyddyn ariannol gyfredol, sy'n newid byd yn eu perfformiad ariannol.

**Cymorth Addysg a Chwsmeriaid** - ar ôl ailstrwythuro ac uno cyllidebau gwasanaethau blaenorol Moderneiddio Addysg a Gwasanaethau Cwsmeriaid yn ddiweddar, cynhaliwyd adolygiad cost llawn sydd wedi arwain at £125k o danwariant yn ystod y flwyddyn. Mae nifer o ffactorau'n cyfrannu at y sefyllfa hon, gan gynnwys swyddi gwag ac arbedion effeithlonwydd mewn costau meddalwedd a thrwyddedu cyfrifiaduron. Mae'r alldro y rhoddwyd gwybod amdano hefyd yn cynnwys £49k o falans a ddygwyd ymlaen. Roedd tybiaethau cynllunio blaenorol wedi cynnwys costau ailstrwythuro rhannau o'r gwasanaeth yn 2012/13. Fodd bynnag, tybir bellach mai yn 2013/14 y bydd y costau hyn yn codi. Mae'r alldro diweddaraf hefyd yn cynnwys £32k o falans a ddygwyd ymlaen ar y gyllideb Moderneiddio Addysg flaenorol sy'n dal heb ei hymrwymo yn ystod y flwyddyn. Y cynnig gwasanaeth yw trosglwyddo'r balans hwn i gronfa wrth gefn Moderneiddio Addysg i ariannu costau ad-drefnu ysgolion yn y dyfodol.

**Cynhwysiant a Gwella Ysgolion** - Mae'r sefyllfa canol blwyddyn a ragwelir yn dal yn debyg i'r misoedd blaenorol (£74k o danwariant). Fodd bynnag, yn rhan o hyn, mae tybiaethau yngylch cost adennill (ailgodi gan awdurdodau eraill am gymorth penodol a roddwyd i ddisgyblion Sir Ddinbych) yn cael eu hadolygu i sicrhau bod y darpariaethau a wnaed yn y gyllideb yn dal yn ddilys ac i adolygu'r cynnydd ar achosion sy'n destun cyd-drafodaethau parhaus rhwng awdurdodau. Mae'n debygol y bydd y gwaith hwn yn arwain at lefel gynyddol o danwariant, a rhoir gwybod am hynny'n fanylach fis nesaf. Dygodd

y gwasanaeth £321k o falans ymlaen o 2011/12. Y cynnig gwasanaeth yw defnyddio'r balans hwn yn 2013/14 i ariannu dulliau diogelu i'r ysgolion y mae diwygiadau i'r fformiwla cyllido ysgolion wedi effeithio'n andwyol arnynt. Amcangyfrif mai cyfanswm cost y dulliau diogelu yw £775k a chynigir canfod cyfraniadau pellach at gyllido hyn o arbedion yn ystod y flwyddyn ar gyllidebau ysgol heb eu dirprwyo (a ddisgrifir isod).

**Ysgolion** - ar ddiwedd mis Ionawr, y rhagamcaniad ar gyfer balansau ysgolion yw £2.106m (£1.941m fis diwethaf). Mae hwn yn symudiad cadarnhaol sef £286k ar y balansau a ddygydd ymlaen o 2011/12. Mae'r cyngor yn dal i weithio gyda dwy ysgol mewn anhawster ariannol. Mae gan y ddwy ysgol gynlluniau adfer yn eu lle ac maent wrthi'n gweithio tuag at y targedau a osodwyd yn y cynlluniau hyn. Mae'r gwariant ar gyllidebau ysgol heb eu dirprwyo yn llai nag a ragwelwyd eleni, a hynny'n bennaf gan fod y cyfraniadau a ragwelwyd at gyfrifon cyfun ar gyfer costau mamolaeth, salwch ac eraill yn llai nag a gynlluniwyd. Mae hyn yn creu £161k o danwariant yn ystod y flwyddyn a thybir y defnyddir hwn i gyfrannu at y dulliau diogelu fformiwla ysgol yn 13/14.

**Cyllidebau Corfforaethol** – gosodwyd y cyllidebau corfforaethol gan dybio bod £1.7m yn cael ei drosglwyddo i gronfeydd wrth gefn yn rhan o'r strategaeth gyllid i'r Cynllun Corfforaethol. Mae'n debygol y bydd y cyllidebau a glustnodwyd i gynhyrchu arian yn 2012/13 yn cynhyrchu mwy na'r targed o £1.7m. Fodd bynnag, mae pwysau ychwanegol wedi dod i'r amlwg sy'n golygu bod cyllid neu ddarpariaethau'n ofynnol er mwyn ariannu yn y dyfodol.

Cost ychwanegol yr ymateb uniongyrchol i'r llifogydd ym mis Tachwedd yw tua £260k. Mae hyn yn llai na'r trothwy i'r Cynllun Cymorth Ariannol mewn Argyfwng fod yn berthnasol ac felly tybir y bydd rhaid i'r cyngor ariannu'r gost hon. Mae hefyd costau parhaus mewn perthynas ag eithriadau o'r Dreth Gyngor (ar gyfer eiddo sy'n dal yn wag ar ôl y llifogydd) a fydd yn gywerth â rhyw £72k yn y flwyddyn gyfredol.

Mae pwysau pellach yn dod i'r amlwg mewn perthynas ag atebolrwydd sy'n codi o drefniadau a wnaed ar ôl dirwyn cwmni Mutual Municipal Insurance (MMI) i ben ym 1992. MMI oedd y prif yswirir i ryw 95% o gynghorau lleol yn y DU, gan gynnwys yr awdurdodau a ragflaenodd Sir Ddinbych. Llofnodwyd cytundeb cyfreithiol gan aelodau ym 1994 gyda'r nod o geisio amddiffyn buddiannau awdurdodau lleol a draenio holl atebolrwydd y cwmni'n llwyddiannus.

Gan fod MMI yn gwmni dan gydberchenogaeth ei aelodau awdurdod lleol, mae ei aelodau'n gyfrifol am atebolrwydd (hawliadau) sy'n dal i godi mewn perthynas â digwyddiadau cyn 1992. Yr achosion mwyaf cyffredin yw honiadau o gam-drin, asbestosis, byddardod a mesothelioma (cyflwr angheuol yn yr ysgyfaint sy'n cael ei achosi drwy anadlu llwch asbestos i mewn). Oherwydd effaith yr hawliadau sy'n dal i godi, mae'r bobl sy'n gweinyddu materion MMI yn rhagamcanu na fydd gan y cwmni ddigon o adnoddau efallai i ariannu'r holl hawliadau yn y dyfodol, gan olygu y bydd rhaid i gyn-aelodau gyfrannu at y diffyg. Bu Sir Ddinbych yn ymwybodol o'i hatebolrwydd posibl o

ran Cyngor Bwrdeistref blaenorol Rhuddlan ac mae wedi darparu rhywfaint ar ei gyfer. Y gost fwyaf posibl am hawliadau Cyngor blaenorol Rhuddlan yw £394k ac mae £96k o ddarpariaeth sy'n cael ei hystyried yn swm rhesymol rhag ofn. Fodd bynnag, mae atebolrwydd ychwanegol yn codi bellach o ran Cyngor Sir blaenorol Clwyd. Nid oes unrhyw atebolrwydd o ran hawliadau Glyndŵr am fod y rhain islaw'r trothwy ar gyfer adfachu.

Mae swm atebolrwydd posibl Clwyd yn ansicr - mae'n dibynnu ar nifer a gwerth yr hawliadau a ddaw i'r amlwg. Fodd bynnag, mae'r amrywiaeth yn seiliedig ar sefyllfaedd tebygol ar hyn o bryd rhwng £250k a £560k. Cyfanswm y gost bosibl i'r cyngor am hawliadau Clwyd yw rhyw £2.5m ond mae'n annhebygol y byddai'r atebolrwydd yn cael ei sbarduno ar y lefel hon.

Mae cyfraddau casglu'r Dreth Gyngor yn fwy nag a dybiwyd ac maent yn awgrymu y bydd y cynnyrch yn uwch na'r swm a bennwyd wrth osod y gyllideb. Tybir y bydd unrhyw fudd o gynnrych treth y cyngor yn cael ei ddefnyddio i gyfrannu at ariannu blaenoriaethau buddsoddi strategol y Cyngor yn rhan o'r Cynllun Corfforaethol.

## Cynllun Cyfalaf

Mae'r gwariant hyd ddiwedd mis Ionawr yn £19.4m mewn perthynas â £31.4m o Gynllun y cytunwyd arno. Dylid nodi bod gwariant yn chwarter olaf y flwyddyn bob amser yn cynyddu. Y llynedd, roedd y chwarter olaf yn cyfrif am 43% o'r cyfanswm gwariant am y flwyddyn. Dengys **Atodiad 3** grynodeb o'r cynllun cyfredol a'r ffordd y caiff ei ariannu. Dangosir trosolwg o'r prif brosiectau cyfalaf yn **Atodiad 4**. Yn **Atodiad 5** mae manylion y ddau gynllun a gynigiwyd i'w cymeradwyo gan y Grŵp Buddsoddi Strategol.

## Cyfrif Refeniw Tai (CRT)

Mae'r CRA diweddaraf a gynigir yn rhagweld £14k o ddiffyg canol blwyddyn (£63k fis diwethaf). Mae hwn yn cymharu â £71k o warged canol blwyddyn a bennwyd wrth osod y gyllideb. Mae adroddiad manwl sy'n cynnig cynllun cyfalaf a chyllideb y CRT yn eitem ar wahân ar agenda'r Cabinet. Dengys yr adroddiad fod Cynllun Busnes y Stoc Tai'n dal yn ariannol ddichonadwy.

## 7 Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?

Argymhellwyd y gyllideb refeniw gan y Cabinet a chytunwyd yn ffurfiol iddi gan y Cyngor ar ôl cylch helaeth o heriau gwasanaeth. Cymeradwywyd y cynllun cyfalaf gan y cyngor ar ôl i'r Grŵp Buddsoddi Strategol graffu arno a'r Cabinet ei argymhell. Cymeradwywyd y Cyfrif Refeniw Tai ar ôl ymgynghori ag aelodau etholedig a chynrychiolwyr y ffederasiwn tenantiaid.

## **8 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Disgwylir i wasanaethau gyflawni'r arbedion y cytunwyd arnynt drwy'r Heriau Gwasanaeth a'r broses gosod cyllideb ac, ar y cyfan, maent ar y trywydd cywir. Mae'n bwysig bod gwasanaethau'n dal i reoli cyllidebau'n ddoeth a bod unrhyw wargedion canol blwyddyn yn cael eu hystyried yng nghyd-destun y sefyllfa ariannol tymor canolig. Cedwir llygad craff ar y sefyllfa ynghylch atebolwydd MMI.

Bydd costau gwasanaeth ychwanegol o ganlyniad i'r ymateb i'r llifogydd ym mis Tachwedd yn cael eu hariannu'n gorfforaethol.

## **Sylwadau Economaidd a'r Diweddaraf am Reoli Trysorlys**

Mae'r marchnadoedd ariannol yn dal yn weddol gyfnewidiol ac mae hyn yn dal i gyfyngu ar nifer y sefydliadau y gall y cyngor fuddsoddi gyda nhw ac ar hyd y buddsoddiadau y gall y cyngor eu gwneud. Mae'r ddau beth hyn yn cyfyngu ar yr enillion y gall y cyngor eu cyflawni. Wrth i'r ansicrwydd yn y marchnadoedd barhau, mae polisi'r cyngor yn cyfyngu ar y rhan fwyaf o fuddsoddiadau newydd i adneuon dros nos. Mae'r strategaeth hon o wneud buddsoddiadau tymor byr yn debygol o barhau am y tymor canolig.

Mae Strategaeth Buddsoddiad a Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2013/14-2015/16 yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor i'w cymeradwyo ar 26 Chwefror 2013.

Ar ddiwedd mis Ionawr, roedd cyfanswm y benthyciadau'n dal yn £134.08m ar gyfradd gyfartalog o 5.76% ac roedd cyfanswm y buddsoddiadau'n £19.2m ar gyfradd gyfartalog o 0.75%.

## **9 Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Hwn yw'r cyfnod ariannol mwyaf heriol y mae'r cyngor wedi'i wynebu ac, os na fydd yn gallu cyflawni'r strategaeth gyllideb y cytunwyd arni, bydd pwysau pellach ar wasanaethau yn y flwyddyn ariannol gyfredol ac yn y dyfodol. Bydd rheoli a monitro'r gyllideb yn effeithiol a rhoi gwybod yn gynnar am amrywiannau yn helpu i sicrhau bod y strategaeth ariannol yn cael ei chyflawni.

Mae risgiau penodol yn amlwg wrth ymdrin â phrosiectau cyfalaf a gallant gynnwys gor-redeg o ran amser neu wariant, materion cyllid ac ystyriaethau heblaw rhai ariannol. Mae mecanwaith cymeradwyo cadarn ac adrodd a monitro ariannol agos, ynghyd â gweithdrefnau rheoli prosiect effeithiol, yn helpu i leihau'r risgiau hyn.

Mae'r CRT yn benthyg cyfalaf sylweddol i wella'r stoc tai ac mae'n defnyddio benthyciadau a grantiau i ariannu'r gwaith. Rhaid i unrhyw fenthyciadau fod

yn fforddiadwy a gellir sicrhau hynny drwy fonitro'r Cynllun Busnes Stoc Tai'n rheolaidd, ei gymeradwyo'n flynyddol a chynnal asesiad dichonoldeb ohono.

## **10 Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae gofyn i awdurdodau lleol dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn briodol.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Appendix 1

**DENBIGHSHIRE COUNTY COUNCIL REVENUE BUDGET MONITORING REPORT 2012/13**

Forecast as at 31/01/2013	Budget			Projected Outturn			Variance			Variance Previous Report £'000
	Expenditure	Income	Net	Expenditure	Income	Net	Expenditure	Income	Net	
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	%	£'000
Business Planning & Performance	1,600	-229	1,371	1,740	-395	1,345	140	-166	-26	-1.90%
Legal & Democratic Services	2,066	-553	1,513	2,139	-626	1,513	73	-73	0	0.00%
Finance & Assets	14,214	-7,143	7,071	14,916	-7,844	7,072	702	-701	1	0.01%
Highways & Environmental Services	38,105	-17,214	20,891	38,137	-17,345	20,792	32	-131	-99	-0.47%
Planning & Regulatory Services	4,322	-1,700	2,622	4,415	-1,793	2,622	93	-93	0	0.00%
Adult & Business Services	46,099	-14,349	31,750	46,693	-14,943	31,750	594	-594	0	0.00%
Children & Family Services	9,979	-1,066	8,913	10,184	-1,351	8,833	205	-285	-80	-0.90%
Housing & Community Development	3,846	-1,744	2,102	4,429	-2,327	2,102	583	-583	0	0.00%
Communication, Marketing & Leisure	10,600	-5,376	5,224	11,255	-6,020	5,235	655	-644	11	0.21%
Strategic HR	1,277	-376	901	1,623	-722	901	346	-346	0	0.00%
ICT/Business Transformation	2,695	-759	1,936	2,566	-657	1,909	-129	102	-27	-1.39%
Customers & Education Support	2,488	-505	1,983	2,280	-509	1,771	-208	-4	-212	-10.69%
School Improvement & Inclusion	11,818	-7,373	4,445	11,828	-7,457	4,371	10	-84	-74	-1.66%
<b>Total Services</b>	<b>149,109</b>	<b>-58,387</b>	<b>90,722</b>	<b>152,205</b>	<b>-61,989</b>	<b>90,216</b>	<b>3,096</b>	<b>-3,602</b>	<b>-506</b>	<b>-0.56%</b>
Corporate	42,769	-36,670	6,099	42,769	-36,670	6,099	0	0	0	0.00%
Transfer to Reserves	1,700	0	1,700	1,700	0	1,700	0	0	0	0.00%
Precepts & Levies	4,569	0	4,569	4,569	0	4,569	0	0	0	0.00%
Capital Financing	12,656	0	12,656	12,531	0	12,531	-125	0	-125	-0.99%
<b>Total Corporate</b>	<b>61,694</b>	<b>-36,670</b>	<b>25,024</b>	<b>61,569</b>	<b>-36,670</b>	<b>24,899</b>	<b>-125</b>	<b>0</b>	<b>-125</b>	<b>-0.50%</b>
<b>Council Services &amp; Corporate Budget</b>	<b>210,803</b>	<b>-95,057</b>	<b>115,746</b>	<b>213,774</b>	<b>-98,659</b>	<b>115,115</b>	<b>2,971</b>	<b>-3,602</b>	<b>-631</b>	<b>-0.55%</b>
<b>Schools</b>	<b>69,320</b>	<b>-7,679</b>	<b>61,641</b>	<b>68,873</b>	<b>-7,679</b>	<b>61,194</b>	<b>-447</b>	<b>0</b>	<b>-447</b>	<b>-0.73%</b>
<b>Total Council Budget</b>	<b>280,123</b>	<b>-102,736</b>	<b>177,387</b>	<b>282,647</b>	<b>-106,338</b>	<b>176,309</b>	<b>2,524</b>	<b>-3,602</b>	<b>-1,078</b>	<b>-0.61%</b>
<b>Housing Revenue Account</b>	<b>11,841</b>	<b>-11,912</b>	<b>-71</b>	<b>11,952</b>	<b>-11,938</b>	<b>14</b>	<b>111</b>	<b>-26</b>	<b>85</b>	<b>134</b>

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Appendix 2 Medium Term Financial Plan Update 2012/13**  
**Update to 31/01/2013**

<u>Ref</u>	<u>Action</u>	<u>Status</u>	<u>Saving £'000</u>	<u>Total £'000</u>
<u>General</u>				
A3	Convert Essential Car Users to Casual	Achieved	200	
A7	Costs of Democracy	Achieved	20	220
	<b>Support Services Review</b>			
C1	HR Review - Ongoing Impact of Centralisation	Achieved	45	
C3	Legal services - phase 1	Achieved	70	
C4	Democratic support	Achieved	28	
C5	ICT/IM Structure	Achieved	60	
C6	ICT/IM Procurement	Deferred	25	
C7	Finance & Assets	Achieved	300	528
	<b>Service Challenges</b>			
	<b>Leisure, Libraries &amp; Community Development</b>			
Da1	Leisure Services-New Booking System	Achieved	30	
Da2	Back office co-located with Youth	Achieved	30	
Da3	Transfer Town Halls to Town Councils	Achieved	80	
Da5	Remove subsidy by increasing income	In progress	120	260
	<b>Environmental Services</b>			
Db2	Renegotiate recyclate and disposal contracts	Achieved	510	
Db3	Service Redesign (Refuse)	Achieved	200	
Db4	Regional Waste Procurement budget	Achieved	134	
Db7	Other Reorg Savings	Achieved	20	
Db10	Service Redesign (Public Realm)	Achieved	138	
Db12	Public Conveniences	Achieved	10	
Db14	WAG Waste Target Pressures	Achieved	-366	
Db15	Free School Meals Cost Pressures	Achieved	-20	
Db16	Countryside staff reduction	Achieved	50	676
	<b>Planning and Public Protection</b>			
EC23	Review of Management Structure	Achieved	90	
EC25	Review of CCTV service	Achieved	30	
EC27	Review of Trading Standards	Achieved	28	
EC28	Miscellaneous Small Savings	Achieved	12	160
	<b>Highways &amp; Infrastructure</b>			
EC12	Passenger Transport	Achieved	35	
EC13	Parking	Achieved	70	
EC15	Development Control	In Progress	18	
	NWTRA Fees	Achieved	100	
EC16	Winter Maintenance	In Progress	65	288
	<b>Adult Social Services</b>			
Df1	Cefndy Healthcare,	Achieved	43	
Df2	Closer working of Fin assessments & Benefits	Achieved	30	
	<b>Other Adult Services</b>			
Df4	Service Restructure	Achieved	130	
	<b>Older People</b>			
Df5	Externalise elements of Home Care	Achieved	15	
Df6	Day care - review and rationalise	Achieved	30	
Df7	Review Meals on Wheels	In Progress	64	
Df8	Impact of investment in reablement	Achieved	75	
Df9	Residential Care - Impact of Extra Care	Achieved	100	
	<b>Mental Health</b>			
Df11	Management Changes	Achieved	19	
Df12	Partnership Efficiency Savings	Achieved	26	

		<u>Status</u>	<u>Saving £'000</u>	<u>Total £'000</u>
<b>Adult Social Services (con'd)</b>				
	<b>Physical Disability &amp; Impairment</b>			
Df13	ISIL Scheme	Achieved	18	
Df14	Reablement Intervention	Achieved	26	
Df15	Telecare	Achieved	20	
	<b>Other Adult Services</b>			
Df16	Administration Rationalisation	Achieved	67	
Df17	Systems Thinking and Vacancy Control	Achieved	40	
	<b>Business Support &amp; Development</b>			
Df18	PMDF Grant - Loss of funded posts	Achieved	152	
Df19	Workforce Development Review	Achieved	20	
				<b>875</b>
<b>School Improvement &amp; Inclusion</b>				
Dh1	Service Restructure	Achieved	100	
				<b>100</b>
<b>Children &amp; Family Services</b>				
	<b>Staffing</b>			
Dj3	Other Staff Savings	Achieved	21	
	In-year Savings to fund Dj5 below	Replacement	43	
	<b>Refocus on Core Business</b>			
Dj5	Re-shaping Supervised Contact Service (£43k)	Deferred	0	
Dj8	Reduction in Independent (external) Placement Provision	Achieved	48	
	<b>Decommissioning Services</b>			
Dj11	Voluntary Organisation Grants	Achieved	37	
	Child Trust Funds	Achieved	2	
Dj12	Parenting Programme	Achieved	82	
Dj14	Rhyl Adventure Playground	Achieved	61	
	<b>Pressures</b>			
Dj18	In-house Fostering	Achieved	-224	
Dj20	Legislative	Achieved	-28	
				<b>42</b>
<b>Housing &amp; Community Development</b>				
Dc1	Various Small savings in Housing	Achieved	7	
Db17	Review of Regeneration	Achieved	10	
Db18	Tourism Service Redesign	In progress	49	
	Regeneration Service Redesign	Achieved	46	
				<b>112</b>
<b>REGIONAL WORKING/COLLABORATION</b>				
ENW1	Education Regional Board	Achieved	25	
ENW2	Social Care Regional Board	Achieved	25	
				<b>50</b>
<b>OUTSOURCING</b>				
G2	Bodelwyddan Castle	Achieved	18	
G4	ECTARC	Achieved	10	
				<b>28</b>
<b>Other Cultural/Heritage activities</b>				
H1	Pavilion Theatre	Achieved	50	
H2	Ruthin Craft Centre	Achieved	20	
H3	Llangollen Pavilion	Achieved	25	
H4	Heritage facilities	Achieved	9	
				<b>104</b>
	<b>Total Savings 2012/13</b>			<b>3,443</b>
<b>Summary:</b>				
Savings Achieved/Replaced or Pressures Confirmed				
			<b>£'000</b>	<b>%</b>
			3,102	90
Savings In Progress/Being Reviewed				
			<b>316</b>	<b>9</b>
Savings Not Achieved or Deferred and not replaced				
			<b>25</b>	<b>1</b>
Total				
			<b>3,443</b>	

**Denbighshire County Council - Capital Plan 2012/13 - 2015/16**  
**Position to January 2013**

**APPENDIX 3**

		2012/13	2013/14	2014/15	2015/16
		£000s	£000s	£000s	£000s
<b>Capital Expenditure</b>		31,411	23,200	2,022	399
Total Estimated Payments Contingency		1,402	1,000	1,000	1,000
<b>Total</b>		32,813	24,200	3,022	1,399
<b>Capital Financing</b>					
1 General Funding:		Unhypothecated Supported Borrowing	4,651	6,846	2,944
		General Capital Grant	3,251	1,844	1,841
		General Capital Receipts	728		
		Earmarked Capital Receipts	98	77	0
		<b>Total General Funding</b>	<b>8,728</b>	<b>8,767</b>	<b>4,785</b>
2 Prudential Borrowing			8,705		
3 Reserves and Expenditure Funded by Revenue		6,269	6,118	607	265
4 Specific Grants and Contributions		2,493	1,009	0	0
5 Unallocated Funding		15,323	12,172	1,345	0
<b>Total Capital Financing</b>		0	-3,866	-3,715	-3,571
<b>32,813</b>		<b>32,813</b>	<b>24,200</b>	<b>3,022</b>	<b>1,399</b>

Tudalen 29

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## Appendix 4 Major Capital Projects Update

### Rhyl Harbour Development

Total Budget	£10.111m
Expenditure to date	£ 5.355m
Estimated remaining spend in 2012/13	£ 1.710m
Future Years estimated spend	£ 3.046m
Funding	WG £2.950m; WEFO £6.030m; Sustrans £0.700m and DCC £0.844m
Comments	<p><b>Rhyl Harbour Cycle &amp; Pedestrian Bridge</b>  Work continues on the discharge of the remaining planning conditions.</p> <p><b>Quayside Units, Public Square &amp; Extended Quay Wall</b>  The Planning conditions associated with the planning consents are being satisfactorily progressed.</p> <p>The specification and a revised drawing for the building are currently being reviewed, and are scheduled to go out by mid February.</p> <p><b>Costs</b>  The projected expenditure includes the use of some of the capital contingency allocated to the project in 2011-12.</p> <p><b>Programme</b>  The bridge is now scheduled to complete at the end of June 2013.</p> <p>Works will start shortly on the bridge landing interface with West Parade.</p> <p>The enabling works contract is due to complete during early August, and will include the finishing works necessary to make the extended quay wall functional to support the bridge operation.</p> <p><b>Publicity &amp; Marketing</b>  A web page has now been set up for the project, and can be found at <a href="http://www.denbighshire.gov.uk/rhylharbourproject">www.denbighshire.gov.uk/rhylharbourproject</a>.</p> <p>The Director General of Sustainable Development from the Welsh Government visited the site recently and was very impressed with progress to date.</p> <p>The Marine Lake Users Forum and Rhyl Environmental Group will shortly be offered site visits.</p>
Forecast In Year Expenditure 12/13	£5.530m

## Highways Programme Works

Total Budget	£3.650m
Expenditure to date	£3.100m
Estimated remaining spend in 2012/13	£0.550m
Future Years estimated spend	£Nil
Funding	Prudential Borrowing
Comments	An allocation of £3.650m was made to progress highways capital works as part of the 2012/13 Capital Bid process. The vast majority of the planned works have now been completed, and it is envisaged that the full allocation will be spent in 2012/13.
Forecast In Year Expenditure 12/13	£3.650m

## Bee and Station

Total Budget	£1.146m
Expenditure to date	£0.722m
Estimated remaining spend in 2012/13	£0.140m
Future Years estimated spend	£0.284m
Funding	ERDF £0.510m; SRA £0.395m; THI £0.168m; DCC £0.073m
Comments	<p>This project involves the renovation of the former Bee &amp; Station hotel, Rhyl to provide business units to rent.</p> <p>A slight delay to the project has been caused by inclement weather. However the project is still expected to complete by mid March, and is within budget.</p> <p>The Welsh Government Finance Minister will be officially visiting the site in the coming weeks.</p>
Forecast In Year Expenditure 12/13	£0.817m

## Rhyl Going Forward

Total Budget	£10.006m
Expenditure to date	£ 0.100m
Estimated remaining spend in 2012/13	£ 2.992m
Future Years estimated spend	£ 6.914m
Funding	WG £10.006m
Comments	<p><b>West Rhyl Housing Improvement Project</b></p> <p>A formal offer of £10m grant has now been received from the Welsh Government, and work has commenced to implement the programme of works. The funding is available for expenditure up to the end of March 2014.</p>
Forecast In Year Expenditure 12/13	£3.092m

### **Denbigh High School Gymnasium Activity Studio**

Total Budget	£0.491m
Expenditure to date	£0.186m
Estimated remaining spend in 2012/13	£0.252m
Future Years estimated spend	£0.053m
Funding	DCC £0.341m; Prudential Borrowing £0.150m
Comments	<p>This project involves the replacement of the existing gymnasium structure with a new gymnastic dance activity studio.</p> <p>The new facility will continue to be used by Denbigh High School and Denbigh Leisure Centre to deliver its community sports and school curriculum programme.</p> <p>The roof is now on the steel structure and the majority of the walls have been erected. There have been some delays to the project due to inclement weather, and the revised completion date is early April 2013.</p>
Forecast In Year Expenditure 12/13	£0.383m

### **Welsh Medium Area School – Ysgol Maes Hyfryd Site**

Total Budget	£1.300m
Expenditure to date	£0.006m
Estimated remaining spend in 2012/13	£0.094m
Future Years estimated spend	£1.200m
Funding	WG £1.2m; DCC £0.1m
Comments	<p>Ysgol Bro Dyfrdwy opened as a new school replacing Ysgol Llandrillo and Ysgol Maes Hyfryd on the 1<sup>st</sup> January 2013, and will initially operate on the two sites.</p> <p>The Welsh Government has recently announced £1.2m funding as part of the wider 21<sup>st</sup> Century Schools Programme. This will enable the new school to move to a single site following a significant extension and refurbishment to the current Ysgol Maes Hyfryd site.</p> <p>Planning permission has now been received and design work for the project is progressing with work planned to start on site this Summer.</p>
Forecast In Year Expenditure 12/13	£0.100m

### North Denbighshire Welsh Medium Provision

Total Budget	£4.878m
Expenditure to date	£0.417m
Estimated remaining spend in 2012/13	£0.323m
Future Years estimated spend	£4.138m
Funding	WG £3.061m, DCC £1.817m
Comments	<p>The Welsh Government has provided funding as part of the transitional 21<sup>st</sup> century Schools Programme. This approval will allow for improvement works to be undertaken at three Welsh Medium schools.</p> <p><b>Ysgol y Llys, Prestatyn</b>  This project will deliver an extended, remodelled and refurbished school for 420 pupils. Planning permission has now been granted. The return of tenders is due during March, and it is anticipated that work will commence on site this April with completion by August 2014.</p> <p><b>Ysgol Twm o'r Nant, Denbigh</b>  This project will deliver additional school hall accommodation and teaching areas. Planning permission has been granted. It is expected to start works on site in April 2013, with completion towards the end of 2013.</p> <p><b>Ysgol Dewi Sant, Rhyl</b>  This project will deliver improved circulation within the school through the construction of an additional staircase at the rear of the school, additional and refurbished toilets and cloak areas, including the provision of a DDA accessible toilet.  Work commenced on site during November 2012, with completion expected by March 2013.</p>
Forecast In Year Expenditure 12/13	£0.590m

## **Appendix 5 Recommendation of the Strategic Investment Group**

### **Recommendation: Members approve the commencement of Detailed Design work for Rhyl High School and Bodnant Community School, Prestatyn**

The Council's Corporate Plan details the Council's ambition to deliver significant investment in the Council's School Building portfolio over the next few years.

A large proportion of this work will be in the delivery of five projects within the Band A proposals for the 21<sup>st</sup> Century Schools Programme. In support of this, the Welsh Government has provided approval in principal for £73.4m investment.

All projects are required to follow guidance for Business Case approvals as defined in the HM Treasury Model. This will involve the submission of a Strategic Outline Case, Outline Business Case and Full Business Case for projects over £5m, and Business Justification Cases for projects below £5m.

However, local authorities will be required to fund initial feasibility works/detailed design and pre-construction stages to enable formal grant approval to be offered by the Welsh Government. The Welsh Government have not yet confirmed whether this type of work will be funded under the 21<sup>st</sup> Century Schools Programme.

#### **Rhyl High School**

This rebuild project is estimated to cost £24m. It is proposed to commence detailed design from the Council's own resources to enable the Full Business Case to be approved, and secure £12m funding contribution from the Welsh Government.

It is expected that the cost of the detailed design works will be £1.5m.

#### **Bodnant Community School, Prestatyn**

The Bodnant Community School project will see the construction of approximately 8 classrooms, new school hall and supporting facilities on the current junior site. This will enable the infant site of the school to be declared surplus to requirements.

The overall project cost is estimated to be £3.5m, and the Council is required to carry out the feasibility/design work prior to the formal approval of funding from the Welsh Government. It is anticipated that these design costs will be approximately £300k.

Clearly there is a risk to the Council in proceeding with the design works. However, this approach was reviewed by the Strategic Investment Group on 15 January 2013, and the group recommend approval for design works at Rhyl High School and Bodnant Community School to commence at an estimated cost of £1.8m.

Further reports will be submitted to Full Council in due course, seeking approval to proceed to the construction phase.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

<b>Adroddiad i:</b>	<b>Cabinet</b>
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	<b>19 Chwefror 2013</b>
<b>Aelod Arweiniol / Swyddog:</b>	<b>Cynghorydd Hugh Irving</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	<b>Peter McHugh</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Cyfrif Refeniw Tai Cyllidebau Refeniw a Chyllidebau Cyfalaf 2013/14</b>

---

## 1. Beth yw testun yr adroddiad?

I geisio cymeradwyaeth y Cabinet i Gyllidebau Refeniw a Chyfalaf y Cyfrif Refeniw Tai i 2013/14.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

Mae'n ofyniad statudol i osod cyllidebau a lefelau rhent cyn dechrau'r flwyddyn ariannol newydd.

Mae'n rhaid gosod y gyllideb ar gyfer 2013/14 i gydymffurfio gyda Chynllun Busnes y Stoc Dai (HSBP) a sefydlwyd pan benderfynodd y Cyngor gadw ei stoc dai ac ariannu gwelliannau i gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS) erbyn diwedd 2013 a'i gynnal wedyn hyd 2041.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2013/14 (Atodiad 1) a Chynllun Busnes y Stoc Dai (Atodiad 2) yn cael eu mabwysiadu.

Bod rhenti i anheddu'r Cyngor yn cael eu codi yn unol gyda chanllawiau Polisi Gosod Rhent Llywodraeth Cymru (5.18% yr wythnos ar gyfartaledd) yn weithredol o Ddydd Llun 1 Ebrill 2013.

Bod rhenti i garejis Cyngor a Thaliadau Gwresogi yn cael eu codi yn unol gyda Rhenti Canllaw (5.18% yr wythnos ar gyfartaledd) yn weithredol o Ddydd Llun 1 Ebrill 2013.

## 4. Manylion yr Adroddiad.

Ceir manylion ynghylch yr alldro diweddaraf a ragwelir yn Atodiad 1, yn unol gyda'r adroddiad monitro misol. Rhagwelir y bydd gweddillion o £857,000 ar ddiwedd y flwyddyn, sef gwelliant o £17k o gymharu'r ffigur gyda'r alldro a ragwelwyd yn Rhagfyr 2012.

Ceir manylion hefyd ynghylch y gyllideb arfaethedig ar gyfer 2013/14 yn Atodiad 1. Mae'r gyllideb wedi'i chyfrifo ar sail y canlynol:

- Penderfyniadau ynghylch Cymhorthdal HRA;
- Cynnydd cyfartalog o 5.18 % mewn rhenti;

- Gwariant ar Reoli, Atgyweirio a Chynnal a Chadw yn unol gyda thybiaeth cost sylfaenol y HSBP o gynnydd o 2.5%;
- Ni chafwyd unrhyw achosion o Hawl i Brynu yn 2012/13 a rhagwelir y ceir 1 y flwyddyn yn y blynnyddoedd sydd i ddod.

Disgwyllir Penderfyniadau Terfynol ar Gymhorthdal HRA gan Lywodraeth Cymru yn Chwefror 2013. Mae'r Penderfyniad i bob pwrrpas yn nodi cyfanswm y cymhorthdal negyddol a delir i Lywodraeth Cymru ac yna ymlaen i'r Trysorlys bob blwyddyn. Mae'n tybio bod y "Rhenti Canllaw" yn cael eu codi, bod costau "Rheoli a Chynnal a Chadw" wedi'u gosod, a bod ad-daliadau cyfalaf hŷn yn cael eu gwneud. Mae'r cyfrif HRA "tybiannol" a gynhyrchrir o'r cyfrifiad hwn yn warged a thelir y swm hwn i Lywodraeth Cymru ac yna ymlaen i'r Trysorlys fel cymhorthdal negyddol. Mae yna adolygiad cenedlaethol o System Gymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai ar y gweill ond mae'n annhebygol y bydd unrhyw newid sylweddol i'r system gymhorthdal hyd 2014 gyda'r posibilwydd o Setliad Hunan-Ariannu yn cael ei gyflwyno (fel y digwyddodd yn Lloegr yn Ebrill 2012) a fyddai'n golygu setlo dyledion unwaith-ac-am-byth, a hynny'n bosibl wrth alluogi awdurdodau i gadw unrhyw wargedion rhent neu daliadau am wasanaeth.

Mae lle i gredu y bydd Llywodraeth Cymru yn gohirio'r polisi cydgyfeirio rhent (sef sicrhau bod rhenti'r Awdurdod Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn fras ar yr un lefel o fewn ardal) am flwyddyn arall, a gostwng y Rhent Canllaw i 1% uwchben ffigur chwyddiant Medi 2012. Mae hyn wedi arwain at yr argymhellion canlynl o Lywodraeth Cymru:

- Lwfansau Rheoli a Chynnal a Chadw i'w codi 6.6% i £2,610 mewn cymhariaeth â £2,267 yr annedd yn 2012/13;
- Rhent Canllaw i godi i £69.70 yr annedd yr wythnos sy'n golygu cynnydd wythnosol o £3.62 neu gynnydd o 5.48%. Mae hyn oherwydd bod rhenti yn Sir Ddinbych yn gymharol isel a pholisi Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod lefelau rhent rhwng Awdurdodau Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn cydgyfeirio. Bydd hyn yn golygu y bydd lefelau rhent awdurdodau lleol yn codi ar gyfradd uwch na Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i wireddu'r cydgyfeiriant;
- Bydd Rhenti Meincnodi (Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig) yn codi i £75.21 o £72.95 sef cynnydd o £2.26 neu gynnydd o 3.10%.

Amcangyfrifir mai cyfanswm y taliad Cymhorthdal HRA i Lywodraeth Cymru ar gyfer 2013/14 fydd £3,243,000 sy'n golygu cynnydd o 5.3% o'i gymharu gyda 2012/13.

Mae Gwasanaethau Tai yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd ceisio lleihau codiadau rhent tra'n darparu cefnogaeth i denantiaid a chynnal ansawdd uchel y stoc.

Mae'r gwasanaeth wedi gwneud cryn dipyn o waith ar gwmpasu effaith diwygiadau lles a datblygu strategaethau i reoli a lliniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r diwygiadau hynny. Mae'r holl aelwydydd a fydd yn cael eu heffeithio wedi cael eu hadnabod, ac mae 65% o'r aelwydydd wedi derbyn ymwelliad yn y cartref gan eu swyddog stad, yn esbonio'r newidiadau mewn budd-daliadau (gan gynnwys gwybodaeth gyffredinol ar Gredyd Cyffredinol) a sut y bydd yn effeithio ar eu taliadau Budd-dal Tai. Rhagwelir y bydd yr holl ymwelliadau wedi cael eu cwblhau erbyn y drydedd wythnos yn Chwefror 2013. Mae dadansoddiad wedi dangos bod cyfanswm o 389 o gartrefi yn cael eu heffeithio gan y tâl am beidio â defnyddio pob llofft (treth llofft) a allai arwain at golli

£233k o'r incwm sydd ar gael i'r Gwasanaeth yn y senario achos gwaethaf. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg wedi cael ei chodi o fewn y cynllun busnes ar gyfer 2012/13 a 2013/14 gan swm cronus o £150k er mwyn cymryd i ystyriaeth goblygiadau'r diwygiadau lles.

Bydd yr holl denantiaid sy'n cael eu heffeithio yn derbyn cyngor ar opsiynau o ran tai ac mae'r gwasanaeth wedi'i ail-strwythuro i greu swyddogaeth rheoli incwm pwrrpasol i ddatblygu ymagwedd mwy rhagweithiol at reoli a lliniaru'r risgau o ôl-ddyledion uwch o ganlyniad i'r diwygiadau lles ehangach. Mae'n werth nodi bod traean o'r Stoc Dai wedi'i ddynodi yn llety gwarchodol sydd ar hyn o bryd wedi'i eithrio o'r dreth llofft, fel ag y mae unrhyw bersonau wedi ymddeol sy'n byw mewn llety anghenion cyffredinol. Mae 66% o holl denantiaid yn derbyn rhyw fath o Fudd-dal Tai gyda hanner holl denantiaid yn derbyn Budd-dal Tai llawn.

Argymhellir bod holl denantiaid yn talu'r cynnydd a nodir yn y Canllaw Rhent ar gyfer 2013/14, a byddai hynny'n arwain at y taliadau canlynol ar y stoc:

	Rhent Gwirioneddol 2012/13	Rhent Canllaw /Gwirioneddol 2013/14
Fflat un ystafell	£56.10	£59.01
1 Llofft	£59.02	£62.08
2 Llofft	£63.81	£67.12
3 Llofft	£73.62	£77.43
4 Llofft	£80.95	£85.14

### Cynllun Busnes y Stoc Dai (HSBP)

Fel rhan o'r broses gyllideb, mae'n angenrheidiol monitro Cynllun Busnes y Stoc Dai. Cynhelir ymarferiad Diwydrwydd Dyladwy yn flynyddol i adolygu'r tybiaethau a ddefnyddiwyd ac i ddilysu effeithiolrwydd y model ariannol. Ymhellach, mae'r adolygiad yn cynnwys dadansoddiad sensitfrwydd ac yn cynhyrchu cofrestr risg.

Cynhaliwyd yr adolygiad diweddaraf yn Ionawr 2012; roedd yn cadarnhau bod nifer o'r tybiaethau gwreiddiol (2005/06) heb newid, gan ddod i'r canlyniad bod y Cynllun Busnes yn ddichonadwy ac yn rymus. Mae'n nodi bod y tybiaethau a wnaethpwyd yn ddoeth a bod y cynllun yn ddichonadwy dros y 30 mlynedd nesaf.

Mae arolwg cyflwr stoc 2012 wedi adnabod angen am wariant ychwanegol sylweddol dros y 30 mlynedd nesaf sy'n amrywio o £50 miliwn i £33 miliwn. Gwnaethpwyd llawer iawn o waith i lyfnhau'r brigau a'r pantiau buddsoddi dros oes y cynllun busnes, a mabwysiadu ymagwedd ofalus a doeth at gylchredau bywyd cydrannol, gwaith sydd angen blaenoriaeth a thybiaethau cost.

Gwraidd y mater yw bod y cynllun yn parhau i fod yn ddichonadwy dros y cyfnod 30 mlynedd gyda gweddillion yn codi o £43 miliwn o'r arolwg Savills gwreiddiol i £52 miliwn wrth ystyried y gofynion buddsoddi stoc drwy arolwg Rands.

Bydd y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2013/14 yn cynnwys cwblhau'r cytundebau fframwaith fel y bydd yr holl eiddo yn cyflawni WHQS. Bydd cyfanswm gwaith cyfalaf ar gyfer 2013/14 yn cyd-fynd gyda Chynllun Busnes y Stoc Dai sef £8,181,796.

## **Garejis**

Bydd rhenti i garejis yn codi yn unol â'r cynllun busnes sef cynnydd o 5.18% ar gyfer 2013/14. Yn 2012, dechreuwyd adolygiad o garejis i weld sut maen nhw'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd, i gymharu â chyferbynnu costau buddsoddi yn erbyn yr incwm a geir, ac i ystyried opsiynau'r tymor canolig i'r tymor hir i safleoedd garejis. Mae'r adolygiad wedi cael ei ohirio am y tro o ganlyniad i ail-strwythuro trefniannol, ond disgwylir y bydd yn ail-ddechrau yn y flwyddyn ariannol newydd.

## **Taliadau Gwresogi**

Mae gan bedair stad systemau gwresogi cymunedol gyda boeleri canolog heb fesuryddion unigol. Mae holl denantiaid eraill yn talu am eu gwres eu hunain yn uniongyrchol i'r cyflenwr.

Mae costau cyflenwi ynni wedi bod yn codi, ac yn draddodiadol nid yw Sir Ddinbych wedi pasio ymlaen y cynnydd llawn mewn costau ynni (yn wahanol i gynghorau eraill sy'n gwneud hynny). Argymhellir bod y Cyngor yn cadw at yr egwyddor hon am flwyddyn arall gan gynnig cynnydd o 5.18% sef cynnydd o rhwng 33c yr wythnos a 59c yr wythnos i'r sawl sy'n talu'r tâl gwresogi. £9.59 yr wythnos yw'r costau gwresogi cyfartalog i'r sawl sy'n talu'r tâl gwresogi.

Mae tîm prosiect ar hyn o bryd yn archwilio'r potensial i ddatblygu cynllun broceriaeth tanwydd i sicrhau arbedion ar gostau ynni a fyddai o fudd i denantiaid a thrigolion. Mae Cernyw ac Oldham wedi lansio Cynlluniau Broceriaeth ac mae swyddogion ar hyn o bryd yn cynnal trafodaethau gyda'r awdurdodau hynny i weld beth yw'r potensial ar gyfer ymestyn y cynlluniau hynny i alluogi trigolion Sir Ddinbych i elwa arnynt nhw.

## **Penodi Contractwyr, Cytundeb Fframwaith**

P7/11/703 –Adnewyddu Tai Cytundeb 6. (Dinbych, Henllan, Trefnant)

Gwerth y Cytundeb: £2,841,243.00

Prif Gontactiwr: Adever Construction Ltd.

Cytundeb yn dechrau: 16.04.2012.

Cytundeb yn gorffen: 27.09.2013.

Hyd - 76 wythnos

Nifer yr eiddo: 219.

P7/11/704 - Adnewyddu Tai Cytundeb 7. (Rhuthun, Llandyrnog, Llanrhaeadr, Gellifor, Rhewl, Llanynys, Llanfair, Graigfechan, Cyffylliog, Clocaenog, Bontuchel)

Gwerth y Cytundeb: £2,437,975.10.

Prif Gontactiwr: Adever Construction Ltd.

Cytundeb yn dechrau: 20.08.2012

Cytundeb yn gorffen: 15.11.2013.

Hyd - 65 wythnos

Nifer yr eiddo: 192

P7/11/705 - Adnewyddu Tai Cytundeb 8. (Corwen, Carrog, Cynwyd, Gwyddelwern, Glyndyfrdwy, Llandrillo, Llantisilio, Llangollen,)

Gwerth y Cytundeb: £2,777,649.40.

Prif Gontactiwr: Bramall Construction Ltd.

Cytundeb yn dechrau: 11.02.2013.

Cytundeb yn gorffen: 21.04.2014

Hyd - 65 wythnos (Mae'r contractwyr wedi cadarnhau y byddant wedi cwblhau'r rhaglen erbyn 20 Rhagfyr 2013)

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenorriaethau Corfforaethol?**

Mae darparu tai o ansawdd da yn Flaenorriaeth Gorfforaethol ac mae'r buddsoddiad yn y stoc dai i gyflawni a chynnal safon Ansawdd Tai Cymru yn darparu cyfleoedd sylwedol i gyflogi llafur lleol, defnyddio cadwynau cyflenwi lleol a chefnogi cyrff y trydydd sector.

## **6. Beth fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae'r Cyfrif Refeniw Tai i bob pwrrpas wedi'i gylch-ffensio, a daw costau gweithredu'r cynllun o'r incwm uwch a geir o'r rhenti a thaliadau.

## **7. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?**

Bydd ymgynghori yn digwydd gyda Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych ar y cynigion cyfalaf a refeniw, yn enwedig ar yr opsiynau i'r rhaglen gyfalaf. Yn y gorffennol, mae'r Ffederasiwn wedi mynegi pryder yng Nghylch lefelau codiadau mewn rhent, ond yn derbyn bod angen codi rhenti i dalu am welliannau.

## **8. Datganiad y Prif Swyddog Ariannol**

Mae adolygiad diweddar Cynllun Busnes y Stoc Dai, sy'n ymgorffori tybiaethau diweddaraf Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r cymhorthdal tai, yn dangos bod y Cynllun yn parhau i fod yn gadarn ac yn ariannol ddichonadwy. Mae data arolwg cyflwr y stoc yn golygu y gallwn gynllunio gyda sicrwydd ar gyfer anghenion buddsoddi'r stoc gan wybod bod digon o adnoddau i gyflawni'r anghenion buddsoddi.

## **9. Beth yw'r risgiau ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Gallai methu dilyn Cynllun Busnes y Stoc Dai a gosod cyllidebau arwain at broblemau ariannol ac ymyrraeth posibl gan Lywodraeth Cymru. Bydd Gwasanaethau Tai yn gweithio'n agos gyda hawliau lles a'r grŵp diwygio lles corfforaethol i reoli, lliniaru a lleihau effaith diwygiadau lles ar denantiaid.

## **10. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae gan y Cyngor y pŵer i wneud y penderfyniad hwn ac nid oes angen unrhyw ganiatâd allanol i wneud hynny.

**ATODIAD UN**

<b>Housing Revenue Account ~ 2012/2013 Budget</b>					
<b>2011/2012</b> <b>Final Outturn</b> <b>£</b>	<b>Period 10 - January 2013</b> <b>EXPENDITURE</b>	<b>2012/2013</b>		<b>2013/2014</b>	
		<b>Budget</b>	<b>Forecast Out-turn</b>	<b>Proposed Budget</b>	
		<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>	
2,002,530	Supervision & Management - General	2,076,887	2,135,668	2,087,263	
282,332	Supervision & Management - Communal	280,885	281,520	287,907	
117,495	Welfare Services	307,266	316,583	139,454	
2,997,918	Repairs and Maintenance	2,970,020	3,068,896	2,918,021	
<b>5,400,275</b>	<b>Total Housing Management</b>	<b>5,635,058</b>	<b>5,802,668</b>	<b>5,432,645</b>	
2,590,701	Item 8 Capital Charges	2,648,339	2,658,773	3,075,457	
1,340,936	Capital Funded from Revenue	330,606	330,606	890,201	
3,084,830	Subsidy	3,147,640	3,080,742	3,242,626	
28,247	Provision for Bad Debts	79,375	79,375	131,248	
<b>12,444,989</b>	<b>Total Expenditure</b>	<b>11,841,018</b>	<b>11,952,164</b>	<b>12,772,177</b>	
	<b>INCOME</b>				
11,146,799	Rents (net of voids)	11,749,986	11,776,555	12,499,399	
154,895	Garages	157,174	156,148	162,678	
5,738	Interest on Balances & Other Income	4,625	4,625	8,015	
<b>11,307,432</b>	<b>Total Income</b>	<b>11,911,785</b>	<b>11,937,328</b>	<b>12,670,092</b>	
	<b>Surplus / Deficit (-) for the Year:</b>				
<b>203,379</b>	<b>General Balances</b>	<b>401,373</b>	<b>315,771</b>	<b>788,116</b>	
2,008,964	Balance as at start of year ~ General	871,407	871,407	856,572	
<b>-1,340,936</b>	<b>Earmarked Balances</b>	<b>-330,606</b>	<b>-330,606</b>	<b>-890,201</b>	
871,407	Balance as at end of year ~ General	942,174	856,572	754,487	

## ATODIAD DAU

SUMMARY	2 2012.13	3 2013.14	4 2014.15	5 2015.16	6 2016.17
<b>CAPITAL EXPENDITURE</b>					
Planned Improvements	£4,596,255	£8,181,796	£5,053,057	£5,204,649	£5,360,789
IT Investment		£1,000,000			
Slippage (Previous Years)	£2,599,424				
	£7,195,679	£9,181,796	£5,053,057	£5,204,649	£5,360,789
<b>CAPITAL FUNDING</b>					
Major Repairs Allowance	£2,400,000	£2,400,000	£2,400,000	£2,400,000	£2,400,000
Usable Capital Receipts	£0	£18,480	£19,269	£20,087	£20,932
CERA	£330,606	£890,201	£422,981	£417,141	£1,052,149
Efficiency Savings - IT investment		£150,000	£150,000	£150,000	£150,000
Prudential Borrowing	£4,465,073	£5,723,115	£2,060,807	£2,217,421	£1,737,707
	£7,195,679	£9,181,796	£5,053,057	£5,204,649	£5,360,789
<b>REVENUE EXPENDITURE</b>					
Management ~ General	£2,135,668	£2,087,263	£2,175,319	£2,229,702	£2,285,445
Special & Welfare Costs	£598,103	£427,361	£438,045	£448,997	£460,222
Repairs & Maintenance	£3,068,895	£2,918,021	£3,067,846	£3,144,542	£3,223,156
HRA Subsidy Payment	£3,080,742	£3,242,626	£3,323,692	£3,406,784	£3,491,954
Rent Rebate Subsidy Limitation	£0	£0	£0	£0	£0
CERA	£330,606	£890,201	£422,981	£417,141	£1,052,149
Provision for Bad Debts	£79,375	£131,248	£132,110	£133,738	£135,448
Capital Financing Costs	£2,658,773	£3,075,457	£3,472,645	£3,585,180	£3,691,569
	£11,952,162	£12,772,177	£13,032,638	£13,366,085	£14,339,942
<b>REVENUE INCOME</b>					
Rental Income	£11,776,555	£12,499,399	£12,844,139	£13,495,261	£14,179,389
Garage Income	£156,148	£162,678	£167,559	£172,586	£177,763
Interest on Balances	£4,625	£8,015	£11,160	£17,912	£21,460
	£11,937,328	£12,670,092	£13,022,858	£13,685,758	£14,378,612
<b>BALANCES</b>					
Balance brought forward	£871,406	£856,572	£754,488	£744,707	£1,064,380
Surplus / Deficit (-) For Year	-£14,834	-£102,084	-£9,781	£319,673	£38,670
Balance carried forward	£856,572	£754,488	£744,707	£1,064,380	£1,103,051

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i:	Y Cabinet
Dyddiad y Cyfarfod:	19 Chwefror 2013
Aelod Arweiniol / Swyddog:	Y Cyngorydd Hugh Irving / Jamie Groves
Awdur yr Adroddiad:	Gareth Watson, Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata Corfforaethol
Teitl:	Strategaeth Gyfathrebu Gorfforaethol

---

## 1. Ynghylch beth mae'r adroddiad?

Mae'r adroddiad yn dangos amcanion Cyfathrebu'r awdurdod yn ystod y tair blynedd nesaf, gydag adrannau allweddol yn trafod cyfathrebu a chysylltiadau mewnol; cyfathrebu ag Aelodau; gwella enw da'r Cyngor a gwella'r brand corfforaethol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

Amlygu'r dulliau o weithredu amcanion ac egwyddorion cyfathrebu'r Cyngor yn ystod y tair blynedd nesaf.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Cymeradwyo'r Strategaeth Gyfathrebu Gorfforaethol a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig ar gyfer 2013.

## 4. Cefndir

Mae'r Cyngor yn y broses o ail strwythuro'i waith Cyfathrebu a Marchnata. Amcan yr ail strwythuro yw cael strwythur drefniadol gadarn a fydd yn gallu cyfarfod â'r gofynion sy'n cael eu diffinio yn y Cynllun Corfforaethol.

Bydd gan y strwythur newydd staff y bydd eu gwaith yn cael ei ganolbwytio'n well, ac yn cael ei gyfeirio'n well i wireddu blaenoriaethau corfforaethol, a fydd yn cydweithio ar draws y gwasanaethau ac yn canolbwytio'n benodol ar adfywio, datblygu economaidd, cefnogi busnes a thwristiaeth.

Mae'n rhaid i'r Cyngor fod yn rhagweithiol wrth farchnata a chyfathrebu ac adolygu'n gyson y dulliau o wneud hydny er mwyn sicrhau fod ei wahanol gynulleidfa oedd yn cael gwybod am y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu ac i sicrhau fod gwasanaethau'n cyfarfod ag anghenion trigolion ac ymwelwyr.

O ganlyniad, un o'r materion allweddol y bydd yr adran newydd yn canolbwytio arno fydd paratoi Strategaeth Farchnata i Sir Ddinbych ond cydnabyddir hefyd fod angen Strategaeth Gyfathrebu Gorfforaethol gyffredinol a fydd yn sail i holl weithgareddau cyfathrebu'r Awdurdod.

Mae yna nifer o yrwyr eraill i'r Strategaeth hon:

- Mae dogfen y Prif Weithredwr, 'Cyngor Rhagorol yn Nes at y Gymuned' yn amlinellu'r angen i ddod yn nes at y gymuned. Dylai'r Cyngor fod yn arweinydd sector, yn adnabyddus am ei ragoriaeth ac am ddefnyddio adnoddau hyd eithaf ei allu i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl i'w drigolion. Mae'n rhaid i'r Cyngor fod yn glir ynghylch y safonau gwasanaeth y gall pobl eu disgwyl gan y Cyngor ac mae angen cyfathrebu hynny.
- Dylai'r Aelodau ddod yn llysgenhadon i'r Cyngor. Mae angen gwell cysondeb yn y ffordd mae cynghorwyr yn cyfathrebu gyda grwpiau busnes a grwpiau cymunedol yn eu hardaloedd ac fe ddylen nhw fod y pwynt cyswllt cyntaf i'w hetholwyr ynghylch unrhyw bryderon.
- Mae'r sefyllfa ariannol yn golygu bod angen i ni ddarparu'n gallach ac mae mwy o angen cyfathrebu effeithiol nag erioed o'r blaen.
- Adborth oddi wrth drigolion. Mae'r arolwg trigolion pob dwy flynedd yn dangos fod angen hysbysu trigolion am y gwasanaethau sydd ar gael iddyn nhw. Fe ddylen ni ddangos i'n trigolion y byddwn ni'n ymateb iddyn nhw ac y byddwn yn gwrando.
- Mae angen cryfhau gwaith cyfathrebu mewnol i sicrhau fod staff yn cael yr wybodaeth a'r adnoddau priodol i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl, ar gyfer cynulleidfa oedd mewnol ac allanol.
- Gwella'r cysylltiadau gyda'r cynghorau tref a chymuned – cyfathrebu'n well i wella'r Siarter a gytunwyd rhwng y Cyngor a Chynghorau Tref a Chymuned.

Mae'r Cyngor hefyd angen Cynllun Gweithredu cydlyniedig i dalu sylw i heriau cyfathrebu'r awdurdod yn y dyfodol. marchnata gwasanaethau cyngor; Marchnata Cyrchfannau; digwyddiadau Mawr – megis Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2013; cyfryngau Cymdeithasol; datblygiadau'r We; datblygu polisi'r Iaith Gymraeg a chyflwyno safonau newydd sy'n cael eu gosod gan Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg.

Yr allwedd i gael hyn i lwyddo yw newid diwylliant y sefydliad. Rydym eisiau i Staff ac Aelodau fod yn falch o weithio dros Sir Ddinbych; bod yn cysylltu'n rhagweithiol; yn cydlynu'r dulliau o gyfathrebu'n fewnol ac o gyfathrebu gydag Aelodau a dal i wella'n perthynas gyda chynghorau tref a chymuned.

## **5. Sut y bydd y penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenorriaethau Corfforaethol?**

Bydd gweithgareddau cyfathrebu'n cael eu dylunio o gwmpas yr angen i hyrwyddo'r blaenorriaethau corfforaethol trwy ganolbwytio'n benodol ar gyfathrebu ynghylch adfywio, datblygu economaidd, cefnogi busnes a thwristiaeth. Bydd cynlluniau cyfathrebu penodol yn cael eu datblygu ar gyfer y meysydd allweddol hyn o waith.

## **6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Bydd yn rhaid cael adnoddau staff i ddarparu'r gwaith yma ac mae hynny'n cael sylw trwy adolygu gwaith Cyfathrebu a Marchnata'r awdurdod.

Bydd darparu'r Cynllun Gweithredu yn golygu y bydd yn rhaid i'r Tîm Cyfathrebu newid ei ffordd bresennol o weithio, a hefyd unigolion yn y tîm Gofal Cwsmer a chynrychiolwyr y gyfarwyddiaeth sy'n gyfrifol am gyfathrebu. Bydd hefyd yn gofyn am ymrwymiad pob aelod o staff i fod yn llysgenhadon i'r awdurdod.

Bydd unrhyw gostau'n codi o weithgareddau cyfathrebu'n cael eu cynnwys yn y cylidebau presennol.

## **7. Pa ymgynghori a wnaed?**

Cafodd y strategaeth hon ei pharatoi gan grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o nifer o adrannau perthnasol, gan gynnwys cynrychiolydd o'r Cabinet.

Mae'r adroddiad eisoes wedi'i drafod gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac mewn Briffio Cabinet.

## **8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes goblygiadau ariannol sylweddol o ganlyniad I gynnwys yr adroddiad hwn.

## **9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Gallai peidio â chydlyn u gwaith cyfathrebu arwain at bylu'r neges gorfforaethol a gallai hynny arwain at niweidio enw da'r cyngor.

Er mwyn ceisio lliniaru'r perygl yma, trefnir cyfres o sesiynau codi ymwybyddiaeth i sicrhau fod staff yn deall yn iawn gynnwys y Strategaeth Gyfathrebu Gorfforaethol yn ogystal â'u rôl mewn sicrhau ei bod yn cael ei darparu'n llwyddiannus.

## **10. Yr Hawl i Benderfynu**

Adran 111 Deddf Llywodraeth Leol 1972 - Is Hawliau Awdurdodau Lleol.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Outcome	Activity	Lead Officer										
		Jan	Feb	Mar	Apr	May	Jun	Jul	Aug	Sep	Oct	Nov
1 Identify three key internal communications marketing campaigns ( as well as a programme of activities around the corporate priorities)	Katharine Ellis											
1 Production of electronic information briefings to be included as part of induction training programme.	Katharine Ellis											
1 Communications awareness training for departments (as well as awareness of the new Welsh Language Standards) Work with departments to prepare for the implementation of the Welsh Language Standards.	Corporate Communications Team Gareth Watson											
1 Further development of the intranet pages to engage staff on corporate issues	Katharine Ellis											
Share departmental best practice with colleagues through Power Hours	Katharine Ellis/H/R Direct											
1 Monthly Team Briefings	Gareth Watson											
1 Three editions of Headlines a year: Spring, Summer and Winter	Katharine Ellis											
1 E-mail updates from Staff Council meetings.	Katharine Ellis											
2 Communications activities around the Customer Charter standards so that customers know what kind of service they can expect from the Council	Jackie Waller / Karen Allen											
2 General publicity to provide particular focus on responding to feedback from customers.	Karen Allen											
2 Communications Plans for the key priorities	Gareth Watson											
2 Targeted marketing campaigns to be agreed by the Council	Gareth Watson/ Vicky Shenton-Morris											
2 Implement the social media strategy	Karen Allen/ Web Team											
2 Produce annual Action Plan to promote the Welsh Language	Gareth Watson											
Tudalen 49	Produce a monitoring report on Welsh language issues for the Welsh Language Commissioner	Gareth Watson										
2 Arrange DCC's presence at the National Eisteddfod	Gareth Watson											
2 Revamp of the corporate website	James Gillett											
2 Production of an A-Z Guide to Service	Gareth Watson											
2 Develop a Marketing Strategy for DCC as a provider of services	Gareth Watson											
2 Develop a Destination Marketing Plan for Denbighshire	Gareth Watson											
2 Create an Events Strategy	Gareth Watson											
3 Communications awareness training for Members (to include general communications and social media)	Gareth Watson											
3 Communications to be a standing agenda item on Member Area Group meetings.	Karen Allen											
3 Monthly e-mail newsletter providing a brief on some of the Council's key issues	Gareth Watson / Vicky Shenton Morris											
3 Produce a programme of consultation and lobbying activities to strengthen links between Denbighshire and the Welsh Government/Welsh Local Government Association	Gareth Watson/ Sharon Evans											
3 Media training for Cabinet Lead Members	Gareth Watson / Vicky Shenton Morris											
If you are providing 'regular and substantial' care for someone, you have the right to a **Carer's Needs Assessment**. You don't have to be living with or related to the person you care for. A Carer's Needs Assessment helps to identify the effects that caring has on your life and lets you think about your own needs. It is carried out by Social Services (or on behalf of Social Services by your local carer support centre) who will work with you, to discuss and plan the support they can offer. This may be in the form of respite care, getting help at home, or other support that will help you to maintain your health and wellbeing.

Members of your healthcare team (GP, district nurse, hospital staff etc) can arrange a Carer's Needs Assessment for you. They may ask you if you would like an assessment, but please enquire if you think you would benefit from one. You can also contact your local Social Service direct on:

Denbighshire ☎ 01824 712900

Flintshire ☎ 01352 752525

Wrexham ☎ 01978 292066

Conway ☎ 01492 576333

Gwynedd ☎ 01286 682888

Anglesey      ☎ 01248 752752

## Young Carers

If you are a young person caring for someone, there are local organisations that can offer advice, support, short breaks and activities.

Denbighshire Young Carers: ☎ 01745 331222

Flintshire Young Carers:      ☎ 01352 755422

Wrexham Young Carers      ☎ 01978 264040

Conwy Young Carers      ☎ 01492 536091

Gwynedd & Ynys Môn Young Carers ☎ 01248 364614

## Crossroads Care North Wales

Crossroads provides practical care and support. Their core service involves a trained support worker coming into your home to give you a break.

Crossroads is a North Wales wide independent charity, with various local branches. Some of the service may be chargeable. You can contact

Crossroads North Wales Head Office on: ☎ 01492 516435 or 0845 6050115

## National Organisations

**The Carers Trust** : has designated websites for adults and young carers offering information, advice and support. Both sites host discussion forums, where carers can share their views and exchange information and tips with other carers.

☎ : 08448004361      e-mail: [info@carers.uk](mailto:info@carers.uk)

web site: [www.carers.org](http://www.carers.org)

**Young Carers:** is an online service for young carers run by the Carers Trust.  
[www.youngcarers.net](http://www.youngcarers.net)

**Carers UK:** offers information and advice on all aspects of caring.  
[www.carersuk.org](http://www.carersuk.org)

## **Putting Things Right**

If you have concerns or feel unhappy with any aspect of the care provided by the NHS, you should feel able to talk to somebody. It is important that the NHS learns from the experiences of patients, friends and families, so that it can try to put things right for you and for others.

As a first step, if you feel able to do so, it is best to talk with someone close to the cause of your concern, such as a doctor, nurse, receptionist or practice manager. It's often possible to sort out the problem straight away.

You may prefer to contact the Health Board's **Concern's Team**:

E-mail: [ConcernsTeam.bcu@wales.nhs.uk](mailto:ConcernsTeam.bcu@wales.nhs.uk)

Post: Concerns Team  
BCUHB  
Ysbyty Gwynedd  
Bangor  
Gwynedd  
LL57 2PW

☎: 01248 384194

## **Betsi Cadwaladr Community Health Council (BCCHC)**

The BCCHC is an independent 'health watch dog' for the NHS in North Wales. It provides information on local health services and offers confidential advice and assistance for people who have concerns or wish to make a complaint about any aspect of the NHS. ☎ 01978 356178

## **Appendix 3 List of carer support agencies**

## **Appendix 4**

### **Baseline: Carers Information requirements**

- Information for carers of people with mental health problem
- Information about the medication given to a patient and where appropriate its potential side effects
- General or specific information on medical condition/treatment in accordance with patient confidentiality, the conditions and treatment of the cared for person, including information on side effects of treatment
- Information that assists children and young people to avoid taking on inappropriate levels of caring and signposts them to sources of assistance
- Accessible information and signposting to information on the availability, entitlement to and sources of local and national support including:
  - ✓ Short breaks / Respite care
  - ✓ Carers Needs Assessments
  - ✓ Direct Payments
  - ✓ Housing Support
  - ✓ Independent Advocacy
  - ✓ Counselling including bereavement support
  - ✓ Guardianship (where appropriate)
  - ✓ The work of the Court of Protection (where appropriate)
  - ✓ Age appropriate support groups
  - ✓ Culturally specific support groups

- ✓ Financial advice and support, including information about the availability of financial support through the benefits and tax credits system
  - ✓ Managing the financial and other affairs of cared for persons
  - ✓ Any other information and support available to help support carers in their caring role
- Information or signposting to information and advice on employment provisions, including flexible working
- Information on:
  - ✓ the range of Social Services functions available to carers and cared-for persons
  - ✓ care planning for the person cared for
  - ✓ medicines management, safe handling, moving and lifting and other matters relating to the care of the person cared for
- Inform carers of local concessionary or other transport schemes and patient transport arrangements, to enable them to attend NHS appointments with the cared for person
- Information and support on aids and adaptations including Telecare and Telehealth services and the waiting times one can expect for such items
- Information on the regulation and inspection of services, i.e. the work of Healthcare Inspectorate Wales and the Care and Social Services Inspectorate for Wales
- Signpost carers on to a local carer support agency and to appropriate national organisations supporting patients, users and carers for specific conditions
- Information on hospital admission avoidance

- Information, advice and support on the availability of suitable local services, the quality and range of provision and how to choose and arrange provision of these services
- Information on the availability of crisis support and how to access it
- Information on the availability of re-abllement and intermediate care
- Help promote health and wellbeing for the carer and person(s) cared for
- Information on the organisation's complaints procedures and those of the Public Service Ombudsman for Wales
- Information for carers who wish to stop their caring role
- Signposting to appropriate programmes of support and learning, these may include training on:
  - ✓ safe lifting, moving and handling
  - ✓ medicines management including the safe administration of medication to the cared for person
  - ✓ relevant nursing skills
  - ✓ use of aids and adaptations
  - ✓ continence care
  - ✓ stress management
  - ✓ help with eating and drinking
  - ✓ dealing with the behavioural aspects of the cared for person
  - ✓ helping carers to look after themselves

# Training Framework – Appendix 5

## CARERS MEASURE – IDENTIFICATION, INFORMATION, SUPPORT AND CONSULTATION

### CARERS MEASURES - EDUCATIONAL FRAMEWORK<sup>4</sup>

CARERS MEASURES - EDUCATIONAL FRAMEWORK <sup>4</sup>			
Level 1 CARER AWARE	Level 2 CARER IDENTIFICATION AND SUPPORT	Level 3 COMPLEX NEEDS AND CARING	CARING FOR CARERS
<p><b>Target Audience</b> All frontline staff NHS/LA Third Sector staff and volunteers Undergraduate programmes</p> <p><b>Outcomes</b> Able to define what is a carer Able to identify and recognise carers their issues Able to signpost accordingly</p> <p><b>Delivered by</b> BCUHB lead LA Trainers Third Sector staff</p> <p><b>Mode of delivery</b> E – learning PowerPoint template presentation</p>	<p><b>Target Audience</b> Qualified Staff (all disciplines) BCUHB/LA/3<sup>rd</sup> Sector Independent contractors/GPs</p> <p><b>Outcomes</b> Builds on level 1 Able to provide information or signpost in relation to ongoing care/discharge planning care issues e.g. Safe lifting Help with eating and drinking Hygiene Administering Meds Confidentiality</p> <p><b>Delivered by</b> BCUHB Lead LA Trainers Third sector</p> <p><b>Mode of learning</b> Classroom based integrated into other programmes E - learning</p>	<p><b>Target Audience</b> Discharge Liaison Team, Matrons, Ward Sisters specific service staff e.g. Paediatric staff, reablement staff</p> <p><b>Outcomes</b> Builds on level 1 and 2 Staff able to plan for complex caring issues including young carers sensory impairment, home ventilation, deteriorating cognitive impairment, Aware of and know how to refer to Third sector agencies Carer burden/burnout issues POVA/POCA issues</p> <p><b>Delivered by</b> BCUHB Lead LA Trainers Third sector</p> <p><b>Mode of learning</b> Classroom based initiatives E - learning</p>	<p><b>Target Audience</b> Actual Carers</p> <p><b>Outcomes</b> Carers educated and able to undertake safely, their caring role feeling supported and empowered. e.g. manual handling, nutrition and hydration, skin care, self care, welfare rights</p> <p><b>Delivered by</b> BCUHB lead/ EPP Local Authorities Carers Centre</p> <p><b>Mode of learning</b> Information sessions Printed literature Web page</p>

<sup>4</sup> This framework has been adapted from the model used at Cardiff UHB

## NARRATIVE TO ACCOMPANY FRAMEWORK

### Level 1 Carer Aware

This programme would be aimed at all BCUHB staff. Local Authority, third sector staff and volunteers, contractors who have the interest in carers' issues. Outcomes of the programme would be to

- Able to define what is a carer is
- Able to identify and recognise carers issues
- Able to signpost accordingly

The course would be delivered as part of induction/mandatory training, integrated into other training opportunities and within primary care settings. Delivered through e learning, and or a corporately agreed PowerPoint presentation.

### Level 2 Carer Identification and support

This programme would be targeted at Qualified Staff from all disciplines in the Health Board, Third sector managers and relevant Local Authority Staff

Independent contractors/GPs. The aim of the programme would be to

- ensure staff are able to signpost or provide information
- involve carers in relation to ongoing care/discharge planning care issues
- signpost carers to education and training regarding
  - Safe lifting
  - Help with eating and drinking
  - Hygiene
  - Administering Medicines
  - Confidentiality

**Delivered by** BCUHB Lead, LA Trainers, Third sector via Classroom based programmes which have been integrated into existing work streams integrated into other programmes yet to be identified, and via e –learning

### Level 3 Complex needs and caring


This programme would be for staff who are working closely with people who are undertaking complex caring roles. For example caring for those with physical and mental health issues requiring a high level of skill to maintain those cared for in their own environments.

The programme would build on level 1 and 2, and be delivered by BCUHB Lead, LA Trainers, and the Third sector, via Classroom based initiatives and E - learning.

## CARING FOR CARERS

Is a programme delivered for carers to enable them to fulfil their caring role to the best of their ability, taking into account their own health issues. The outcomes would be that Carers feel educated and able to undertake safely, their caring role, feel supported and empowered. The content of the programme may include issues such as manual handling, nutrition and hydration, skin care, self care, welfare rights. It would integrate and enhance existing programmes such as the EPP. **Delivered by** BCUHB / EPP, Local Authorities, Carers Centre via Information sessions, Printed literature and development of WebPages.

## Reporting Framework – Appendix 6



To comment on the content of this draft strategy or to seek further information; you can contact Dawn Cooper, Head of Service User Experience. ☎ 01978 727432, or email [dawn.cooper@wales.nhs.uk](mailto:dawn.cooper@wales.nhs.uk)

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

<b>Adroddiad i'r:</b>	<b>Cabinet</b>
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	<b>19 Chwefror, 2013</b>
<b>Aelod / Swyddog Cabinet Arweiniol:</b>	<b>Y Cynghorydd Huw Jones, Aelod Arweiniol y dros Dwristiaeth, Ieuengtaid a Hamdden Jamie Groves, Pennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	<b>Gareth Watson Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata Corfforaethol</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Digwyddiad seiclo Wiggle Etape Cymru 2013</b>

---

## **1. Beth yw byrdwn yr adroddiad?**

1.1 Digwyddiad seiclo ffordd gaeedig Etape Cymru sydd wedi'i drefnu i'w gynnal yn y sir ym mis Medi 2013.

## **2. Beth yw'r rheswm am lunio'r adroddiad hwn?**

2.1 Rhoddodd y Pwyllgor Craffu Cymunedau (17 Ionawr) gymeradwyaeth gymwys i'r digwyddiad gael ei gynnal, ar yr amod yr eir i'r afael â rhai pryderon a bod y Cabinet yn penderfynu ar y Gorchmynion Cau Ffydd arfaethedig.

## **3. Beth yw'r Argymhellion?**

3.1 Bod y Cabinet yn nodi'r trefniant a roddwyd ar waith i fynd i'r afael â phryderon craffu cymunedau a bod y Cabinet yn cytuno i gau'r ffordd a chymeradwyo cynnal y digwyddiad.

## **4. Manylion yr adroddiad.**

4.1 Her seiclo fawr ar ffordd gaeedig yw Etape Cymru sy'n cychwyn ym Mangor-is-y-coed yn Sir Wrecsam. Mae'r ras 92 milltir yn cychwyn ac yn gorffen yn y lleoliad, ond yn mynd i mewn i Sir Ddinbych yn fuan, gan fynd heibio i olygfeydd trawiadol o gwmpas Dyffryn Dyfrdwy, Bwlch yr Oernant ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Moelydd Clwyd.

4.2 Mae trefnwyr y digwyddiad wedi bod wrth eu boddau â llwyddiant y digwyddiad hyd yma ac roeddent yn awyddus i ddychwelyd i'r ardal am y drydedd flwyddyn yn olynol yn 2013.

4.3 Dywed trefnwyr y digwyddiad i'r ardal elwa'n economaidd yn sgil llwyfannu'r digwyddiad yn 2012. Amcangyfrifwyd mai cyfanswm gwariant y cyfranogwyr yn yr ardal dros y penwythnos oedd £129,254.40.

- 4.4 Amcangyfrifwyd mai cyfanswm gwariant y trefnwyr yn yr ardal i gyflwyno'r digwyddiad oedd £115,000; ysbrydolwyd 92% i ddychwelyd i ardal Gogledd Cymru ar gyfer busnes, gwaith neu bleser; byddai 71% yn dychwelyd i Ganolfan Beicio Mynydd Llandegla yn Sir Ddinbych; arhosodd 59% dros nos yn yr ardal (27% 2-5 noson) a daeth 43% â ffrindiau/teulu nhw'n gefnogaeth.
- 4.5 Rheolir y digwyddiad ei hun gan Human Race. Mae ganddynt brofiad mewn cynnal sawl digwyddiad o'r natur hwn ledled y DU. Er nad yw'r Cyngor yn cymryd rhan uniongyrchol yn y gwaith o gynllunio, pwysleisiodd trefnwyr y digwyddiad y byddent yn annhebygol o fwrw ymlaen heb gefnogaeth Cynghorau Sir Ddinbych a Wrecsam.
- 4.6 Mae'r brif rôl i Sir Ddinbych yn ymwneud â hwyluso trafodaethau ar faterion priffyrrd a diogelwch.
- 4.7 Mae'r Cyngor yn ymwybodol y cafwyd rhai pryderon ynghylch rhai agweddu ar y ras ac mae'r trefnwyr yn mynd i'r afael â'r materion hynny. Gellir dod o hyd i grynodeb yn rhan 9 yr adroddiad hwn.
- 4.8 Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi parhau i gyfathrebu'n rheolaidd gyda Human Race, trefnwyr Etape Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, mewn perthynas â digwyddiad seiclo 'ffordd gaeedig' 2012 a gynhaliwyd ar ddydd Sul 9 Medi 2012 ac mae cynlluniau bellach yn mynd rhagddynt ar gyfer cynnal digwyddiad 2013 ar ddydd Sul 8 Medi.
- 4.9 Cyfarfu'r trefnwyr gyda'r Grŵp Ymgynghorol ar Ddiogelwch (Heddlu, Ambiwlans, y gwasanaethau Brys a swyddogion Prifyrdd ac Adfywio Wrecsam / Sir Ddinbych) ac Aelodau lleol i adolygu 2012 ac maent wedi ystyried argymhellion y grŵp er mwyn osgoi'r problemau hynny yn 2013.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

- 5.1 Mae Sir Ddinbych yn gyrchfan o safon ar gyfer seiclo, sydd heb ei ddarganfod yn llawn eto, ac mae ganddo gyfle gwych i elwa'n economaidd ar y twf a welwyd yn y sector twristiaeth gweithgareddau. Mae adfywiad yn un o flaenoriaethau corfforaethol y cyngor.
- 5.2 Mae rhannau sylweddol o Sir Ddinbych wedi'u dynodi'n Ganolfan Rhagoriaeth Seiclo Gogledd Cymru'n ddiweddar, gyda'r nod o greu ardal a gydnabyddir yn genedlaethol fel cyrchfan gydol y flwyddyn eithriadol ar gyfer seiclo ar y ffordd ac oddi ar y ffordd.
- 5.3 Mae Cyngor Sir Ddinbych yn ymroi hefyd i'r Strategaeth Dwristiaeth ar gyfer Gogledd Cymru, y mae ei Gynllun Gweithredu'n cynnwys datblygu digwyddiadau mawrion ac atyniadau a gweithgareddau awyr agored.

5.4 Yn ei bapur, ‘Cyngor Gwych, yn Nes at y Gymuned’, tynnodd y Prif Weithredwr sylw hefyd at yr angen i farchnata Sir Ddinbych fel cyrchfan a bydd buddsoddiad mewn digwyddiadau mawrion a fydd yn denu trigolion ac ymwelwyr i wahanol rannau o'r sir yn allweddol i hyn yn anorfod.

**6. Beth fydd y gost a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

- 6.1 Nid yw Cyngor Sir Ddinbych wedi gwneud unrhyw gyfraniad ariannol at y digwyddiad.
- 6.2 Amser y staff a ddarperir gan Priffyrrd, Adfywio a Phrosiect Canolfan Rhagoriaeth Seiclo i gefnogi'r gwaith o gynllunio'r digwyddiad gan y trefnwyr.
- 6.3 Bydd y costau isaf posibl sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad dathliadol ar y dydd Gwener a'r dydd Sadwrn yn cael eu hamsugno o gyllidebau refeniw sy'n bodoli.

**7. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?**

- 7.1 Mae ymgynghori ac ymgysylltu eisoes yn cael ei gynnal gyda'r adrannau canlynol: Priffyrrd, Cludiant Cyhoeddus, Iechyd a Diogelwch, Cefn Gwlad, Prosiect y Ganolfan Rhagoriaeth Seiclo, Adfywio a Thwristiaeth, Prif Weithredwr, Cyfathrebiadau Corfforaethol, yr Aelod Arweiniol dros Dwristiaeth, Hamdden ac Ieuencid a'r Aelodau ward perthnasol.
- 7.2 Mae Heddlu Gogledd Cymru a'r gwasanaethau brys eraill wedi cymryd rhan yn llawn a sefydlwyd Grŵp Ymgynghorol Diogelwch ar y cyd Wrecsam/Sir Ddinbych eto i oruchwylion'r gweithdrefnau rheoli traffig, cludiant a cherddwyr ar gyfer y digwyddiad hwn.
- 7.3 Trafodwyd y mater hefyd gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau. Er bod y pwyllgor yn gyffredinol gefnogol i gynnal y digwyddiad, codwyd nifer o bryderon ganddynt. Eir i'r afael â'r materion hyn yn rhan 9.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

- 8.1 Nid yw'r Cyngor yn ystyried unrhyw gyfraniad ariannol i'r digwyddiad hwn ar hyn o bryd.

**9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ni ei wneud i'w lleihau?**

- 9.1 Nodwyd nifer o risgiau/pryderon a nodwyd gan Graffu Cymunedau. Rhestir y rhain isod, ynghyd â rhai cynlluniau adferol a roddir ar waith er mwyn lliniaru'r risgiau wrth fynd ymlaen.

- 9.2 Cyfathrebiadau gyda thrigolion/tirfeddianwyr sy'n byw ar hyd y llwybr.** Mae trefnwyr y digwyddiad wedi dysgu o brofiadau'r flwyddyn flaenorol ac mae ganddynt gynllun marchnata a chyfathrebu clir ar waith. Maent eisoes wedi bod yn trafod gydag Aelodau lleol. Ychwanegir at y gwaith hwn gan Gynllun Cyfathrebu a fydd yn cael ei ddraffio a'i weithredu gan Dîm Cyfathrebu a Marchnata Corfforaethol Sir Ddinbych. Byddant yn defnyddio ystod eang o ddulliau cyfathrebu i roi gwybod i bobl am y llwybr a'r trefniadau, gan gynnwys y cyfryngau, cyfryngau cymdeithasol (Twitter a Facebook), erthyglau yn Llais y Sir, y wefan gorfforaethol, post uniongyrchol, cylchlythyrau cymunedol a hysbysebion yn y papurau newydd lleol sy'n cwmpasu'r ardal.
- 9.3 Atebolrwydd cyhoeddus:**  
Mae gan drefnwyr y digwyddiad yswiriant atebolrwydd cyhoeddus – bydd datganiad a chopi'n cael ei ddarparu gan drefnwyr y digwyddiad, yn ogystal ag yswiriant gwasanaeth meddygol ac yswiriant cyfranogwyr. Cymerodd trefnwyr y digwyddiad gyfrifoldeb llawn am ddiogelwch y digwyddiad yn 2012.
- 9.4 Canlyniadau unrhyw asesiadau risg a gynhaliwyd mewn perthynas â materion atebolrwydd cyhoeddus:** Mae trefnwyr y digwyddiad yn cynnal asesiad risg a dyletswydd y Grŵp Ymgynghorol Diogelwch yw sicrhau y gwneir hyn. Mae'r adran briffyrrd yn sicrhau y caiff hyn ei wneud hefyd.
- 9.5 Trefnu annigonol:**  
Dyma fater y mae'r Grŵp Ymgynghorol Diogelwch yn symud yn ei flaen. Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi mynnu bod ganddynt fwy o ran yn nigwyddiad eleni. Mae trefnwyr y digwyddiad wedi addo hefyd i sicrhau gwell trefnu a bydd yn sicrhau hefyd bod y marsialyddion yn cael eu briffio'n dda ymlaen llawn am eu rolau a'u cyfrifoldebau.
- 9.6 Dilysrwydd y ffigurau ar fudd economaidd:**  
Mae'r Cyngor yn hyderus fod y ffigurau sydd ganddo ar gyfer budd economaidd digwyddiad 2012 yn ddilys. (Dylid nodi bod yr effaith economaidd a fesurwyd ar gyfer yr ardal ehangach a gynhwysir gan y digwyddiad, ac nid ar gyfer Sir Ddinbych yn unig).  
  
Mae'r Cyngor wedi bod yn trafod gyda threfnwyr y digwyddiad am yr angen i drefnu digwyddiad ychwanegol ar y dydd Sadwrn ym Mhafiliwn Llangollen, i gyd-daro â'r broses gofrestru. Bydd y digwyddiad hwn yn cael ei drefnu a'i arwain gan Wasanaethau Hamdden Cyngor Sir Ddinbych a'i gefnogi gan gynrychiolwyr o'r gymuned leol, gyda'r nod o gasglu cefnogaeth leol ar gyfer y ras ac am botensial y budd economaidd o'r digwyddiad.
- Cymerir camau gan y trefnwyr, gan weithio gyda'r swyddogion Priffyrrd ac Adfywio i fynd i'r afael â rhai pryderon a godwyd gan fusnesau.

- 9.7 Cychwyn y digwyddiad yn gynharach** – Mae'r digwyddiad eisoes yn cychwyn yn gynnar (7am) a chred y trefnwyr y byddai'n anymarferol ei gychwyn yn gynharach. Mae'r Grŵp Ymgynghorol Diogelwch yn edrych ar y mater hwn, ond mae angen ystyried presenoldeb yr heddlu a'r gwasanaethau brys.
- 9.8 Rhan yr aelodau yn y Grŵp Ymgynghorol Diogelwch** - ar ôl cael cyngor aelodau'r Grŵp Ymgynghorol Diogelwch, awgrymwyd y byddai'n fwy priodol i aelodau gymryd rhan yn y Grŵp Cynllunio Digwyddiadau - gydag un cynrychiolydd o Sir Ddinbych ac un o Wrecsam.
- 9.9 Cyfle i farchnata Sir Ddinbych fel cyrchfan:**  
Ymddangosodd deunyddiau hyrwyddol i hyrwyddo a marchnata Sir Ddinbych fel cyrchfan ar wefan Etape Cymru'r llynedd. Bydd hyn yn cael ei ailadrodd eleni gyda gwybodaeth am westai, canolfannau croeso a thai bwyta lleol yn cael ei chynnwys.

Bydd pecynnau gwybodaeth yn cael eu darparu ar y pwynt cofrestru a bydd y Cyngor yn defnyddio pob cyfle posibl i hyrwyddo'r digwyddiad mewn sioeau, gwyliau a gweithgareddau perthnasol. Bydd y Cyngor hefyd yn defnyddio'i wefan a'i gyhoeddiadau ei hun i farchnata'r digwyddiad a Sir Ddinbych fel cyrchfan.

Bydd y digwyddiad a nodwyd yn 9.6 yn sicrhau bod Sir Ddinbych yn cael cyfleoedd marchnata digonol.

## **10. Y Grym i wneud y Penderfyniad**

- 10.1 Rhan 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000 (i hyrwyddo neu wella lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol ardal awdurdod lleol)**

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Adroddiad i:** Y Cabinet

**Dyddiad y Cyfarfod:** 19 Chwefror 2013

**Aelod Arweiniol:** Y Cynghorydd David Smith, Aelod Arweiniol dros y Maes Cyhoeddus

**Awdur yr Adroddiad:** Rebecca Maxwell, Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol

**Teitl:** Newidiadau i Drefniadau Ariannu Bysiau

---

## 1. Ynghylch beth mae'r adroddiad?

Fis Ionawr 2012, cyhoeddodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau ei fwriad i newid y system grantiau ar gyfer annog teithio ar fysiau yng Nghymru. Ar ôl archwiliad manwl, mae'r newidiadau, erbyn hyn, wedi'u cyhoeddi. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth i Aelodau ynghylch y newidiadau ac yn trafod eu goblygiadau.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

Mae'r adroddiad yn gofyn am gymeradwyo'r trefniadau rheoli newydd sydd eu hangen ar gyfer y cynllun ariannu newydd, trwy TATH, y Consortiw Cludiant Rhanbarthol. Mae'r adroddiad hefyd yn gofyn am gymeradwyo newid Cyfansoddiad TATH er mwyn gallu gweithredu'r cynllun newydd.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

- Nodi'r trefniadau newydd ar gyfer ariannu bysiau a ddaw i rym o 1 Ebrill 2013 ar ôl i adroddiad y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau ynghylch ariannu bysiau gael ei gymeradwyo .
- Cymeradwyo'r newidiadau y bwriedir eu gwneud i Gyfansoddiad TATH sydd i'w gweld yn Atodiad 1.
- Nodi y gwneir gwaith pellach i ffurfio trefniadau rheoli newydd ar gyfer gweithredu'r cynllun newydd yn ystod y cyfnod cyntaf o weithredu ac, ar gyfer y Grant Gwasanaethau Cludiant Rhanbarthol, yn ystod y cyfnod pontio .

## 4. Manylion yr adroddiad

### Cefndir

- Ar hyn o bryd, mae gan Lywodraeth Cymru ddau gynllun grant ar gyfer cefnogi gwasanaethau bysiau. Y ddau yw Grant Gweithredwyr

Gwasanaethau Bysiau a'r Grant Gwasanaethau Cludiant Lleol. Mae Llywodraeth Cymru yn talu'r cyntaf yn uniongyrchol i weithredwyr bysiau ac mae'n cael ei seilio ar faint o danwydd a ddefnyddir. Mae'r ail yn cael i dalu i Awdurdodau Lleol i gefnogi'r rhwydweithiau bysiau lleol sy'n cael eu tendro gan Awdurdodau Lleol a'u darparu gan gwmnïau bysiau fesul taith. Roedd gwerth cyfanswm y ddau grant yn 2011 / 12 yn £33 miliwn. Fis Ionawr 2012, cyhoeddodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau ei fod yn bwriadu cwtogi 25 - 27% ar y ddau gynllun.

- 4.2 Ar ôl y cyhoeddiad, cytunodd y Gweinidog i gyfnod pontio pan fyddai'r grantiau'n aros yr un fath, yn amodol ar adolygu ariannu gwasanaethau bysiau yn y dyfodol ledled Cymru. Cafodd y rhan gyntaf o'r gostyngiad, o tua 9.5% ei weithredu o 1 Hydref 2012 a chefnogodd y Cabinet gwtnogi ar lwybrau bysiau lleol yn cael eu cefnogi ar 25 Medi 2012.
- 4.3 Sefydlodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau hefyd grŵp llywio i orffen y trefniadau, a oedd yn cynnwys aelodau o Lywodraeth Cymru, y Consortia Cludiant Rhanbarthol gyda chyfraniad sylweddol gan y Cydffederasiwn Cludiant Teithwyr.

#### Y trefniadau newydd ar gyfer ariannu bysiau

- 4.4 Mae adroddiad y Grŵp Llywio erbyn hyn wedi'i gymeradwyo gan y Gweinidog. Egwyddorion allweddol y trefniadau newydd sydd i'w gweithredu o 1 Ebrill 2013 yw:
  - a) Bydd Consortia Cludiant Rhanbarthol yn gyfrifol am weinyddu'r cynllun Grant Gwasanaethau Cludiant Rhanbarthol newydd a fydd yn disodli'r ddau hen gynllun grant.
  - b) Bydd y Consortia'n datblygu Strategaeth Rhwydwaith Cludiant Bysiau a Rhanbarthol a Chymunedol yn 2013 / 14 a fydd yn dangos y bydd y canlyniadau a ddisgwylir yn cyd-fynd â blaenoriaethau cludiant cenedlaethol a rhanbarthol.
  - c) Bydd y Consortia'n monitro perfformiad yn erbyn canlyniadau ac yn cyhoeddi'r canlyniadau yn eu Hadroddiadau Cynnydd Blynnyddol.
  - d) Bydd Consortia'n gyfrifol am weinyddu'r ad-daliadau a roddir i weithredwyr bysiau o dan y cynllun consesiynau teithio bysiau yn eu hardal o 1 Ebrill 2013.
  - e) Bydd cyfanswm o £25 miliwn o gyllideb ar gael i'r cynllun newydd yn 2013 / 14.
- 4.5 Bydd angen cryn dipyn o waith i sicrhau y bydd y consortia, awdurdodau lleol a'r gweithredwyr yn barod ar gyfer y system newydd erbyn 1 Ebrill. Mae cynlluniau ar gyfer rheoli a chael adnoddau ar gyfer y cyfrifoldebau newydd yn cael eu datblygu gan Grŵp Tasg a Gorffen o Reolwyr Cludiant Gogledd Cymru. Mae ychydig o aelodau o

staff wedi'u secondio i TATH i ddatblygu'r gwaith gweithredu, gan ddefnyddio arian ychwanegol a gaed gan Lywodraeth Cymru.

- 4.6 Mae yna'n dal broblemau i'w datrys ynghylch amseru, adnoddau a threfniadau gweithio ar y cyd. Gan y bydd yna ailgyfeirio, a llai o arian ar gael, bydd hynny'n cael effaith fawr ar y rhwydwaith masnachol ac ar y gwasanaethau y mae'r awdurdod lleol yn eu cefnogi, a bydd yn rhaid penderfynu a dod i ddeall y dyraniad cyn 1 Ebrill 2013. Mae llawer iawn o waith i'w wneud i ddeall lefelau presennol y Grant Gweithredwyr Gwasanaethau Bysiau ar gyfer gwasanaethau masnachol a rhai sy'n cael eu cefnogi er mwyn penderfynu ar lefel wirioneddol yr ariannu sydd ar gael i awdurdodau lleol ar gyfer elfen 'milltiroedd' masnachol y grant newydd er mwyn cefnogi gwasanaethau.
- 4.7 Er mwyn lliniaru'r risgiau hyn, mae'r Gweinidog wedi cytuno i gyflwyno system newydd a fydd yn cael ei gweithredu fesul tipyn. Bydd y Grant Gwasanaethau Cludiant Lleol yn cael ei weithredu fesul rhanbarth o 1 Ebrill 2013 a bydd y newidiadau i'r Grant Gweithredwyr Gwasanaethau Bysiau yn cael eu cyflwyno dros gyfnod o 12 mis.
- 4.8 Bydd hyn yn rhoi rhagor o amser i allu deall a gweithredu'r trefniadau gweinyddol y bydd yn rhaid eu cael ar gyfer y newidiadau. Bydd hefyd yn golygu y gellir datblygu a chytuno ar ganlyniadau ansawdd y cynllun newydd, ac, yn bwysicach, bydd yn sicrhau y bydd effeithiau'r cwtogi ariannol, yn enwedig ar y Grant Gweithredwyr Gwasanaethau Bysiau, yn cael eu deall yn iawn ac y telir sylw iddyn nhw wrth barato'i'r Strategaethau Rhwydwaith Cludiant Bysiau Rhanbarthol a Cymunedol.
- 4.9 Mae yna berygl y gallai'r cynigion newydd effeithio ar y rhwydweithiau bysiau presennol yn ystod y cyfnod pontio. Mae'n anor fod y bydd yna lai o wasanaethau masnachol yn cael eu rhedeg ledled gogledd Cymru'n gyfan gwbl ac y bydd hynny'n rhoi pwysau ar y rhwydwaith sy'n derbyn cefnogaeth. Bydd faint o arian rhydd y gall Awdurdodau Lleol ei ddyrannu hefyd yn dod o dan bwysau wrth i'r newidiadau a'r gyllideb lai effeithio ar rwydweithiau. Bydd yn rhaid i TATH a'r Awdurdodau Lleol gydwel i'r agos er mwyn rheoli'r newidiadau sydd ar y gweill a lleihau eu heffeithiau gymaint â bo modd.

#### Gweinyddu'r trefniadau newydd

- 4.10 Mae Cyfansoddiad presennol TATH yn cyfyngu swyddogaeth TATH i'r nodau a'r amcanion sydd ym mharagraffau 3.1 a 3.2 y Cyfansoddiad. Bwriedir newid y Cyfansoddiad drwy ychwanegu'r amcan isod o dan baragraff 3.2 y ddogfen,

***"Gweinyddu, rheoli a darparu grantiau ariannu bysiau a strategaethau rhwydweithiau bysiau ar gyfer y rhanbarth"***

Mae'r newid arfaethedig yn cael ei ddangos yn llawn yn Atodiad 1.

- 4.11 Mae cyfansoddiad presennol TATH hefyd yn dangos nad yw ardal Meirionnydd o Wynedd yn cael ei chynnwys yn ardal TATH. Gan ei bod yn anodd dadgyfuno cyllidebau refeniw ar gyfer gwasanaethau

bysiau, bwriedir newid y cyfansoddiad i alluogi TAITH i ddarparu arian ar gyfer bysiau ym Meirionnydd os mai dyna yw dymuniad Cyngor Gwynedd. Mae'r newid hwnnw hefyd i'w weld yn Atodiad 1.

- 4.12 Ni fwriedir gwneud unrhyw newid arall ac unig fwriad y newidiadau yw er mwyn gallu gweithredu'r cynllun newydd sydd wedi'i gymeradwyo gan y Gweinidog. Byddai'n rhaid i'r awdurdodau partner gymeradwyo unrhyw newidiadau eraill i swyddogaeth TAITH. Fel Cydbwyllgor, mae gofyn i bob un o chwe Awdurdod Lleol gogledd Cymru gymeradwyo newidiadau i gyfansoddiad TAITH cyn y gellir eu gweithredu.
- 4.13 Mae'r gwaith o baratoi ar gyfer gweithredu'r cynllun newydd yn cael ei reoli ar hyn o bryd gan ddu Swyddog wedi'u secondio o Gynghorau gogledd Cymru sy'n gweithio gyda thîm craidd TAITH gan ddefnyddio cyllideb ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Pan ddechreuir gweithredu'r cynllun newydd, bydd yn rhaid datblygu trefniadau eraill.

## **5. Sut y bydd y penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

- 5.1 Mae gwasanaethau bysiau lleol yn cyfrannu'n fawr at yr economi leol drwy alluogi pobl i gyrraedd swyddi a gwasanaethau na fydden nhw, fel arall, yn gallu gwneud hynny. Mae gwasanaethau bysiau hefyd yn cyflogi llawer o bobl leol. Bydd unrhyw gwtogi, felly, yn debyg o fod yn niweidiol i'r flaenoriaeth gorfforaethol hon.

## **6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

- 6.1 Mae'n debyg y bydd gogledd Cymru gyfan yn cael ei effeithio gan ganlyniadau ariannol yr adroddiad, a bydd gofyn gwneud rhagor o waith i ddadansoddi'r problemau'n drylwyr. Gallai cwtogi ar y grantiau Gweithredwyr Gwasanaethau Bysiau a'r Gwasanaethau Cludiant Lleol ei gwneud yn anos gwireddu amcanion y Cynllun Cludiant Lleol a gallai hefyd effeithio ar lefel ac ar ddarpariaeth gwasanaethau bysiau ledled gogledd Cymru.
- 6.2 Bydd talu grantiau refeniw bysiau i TAITH yn y dyfodol yn effeithio ar TAITH a bydd hefyd yn golygu y bydd llwyth gwaith yr awdurdod gwestia ariannol, Cyngor Sir y Fflint ar hyn o bryd, yn cynyddu.
- 6.3 Yn ogystal â'r newidiadau i'r grantiau ariannu bysiau eu hunain, o dan newidiadau'r Gweinidog, bydd y gwaith o weinyddu tocynnau teithio rhatach yn symud o'r Awdurdodau Lleol o TAITH. Ar hyn o bryd, mae'r gwaith o weinyddu tocynnau teithio rhatach yn golygu un swydd gyfwerth llawn amser yn Sir Ddinbych. Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu Sir Ddinbych yn uniongyrchol ar gyfer gweinyddu teithio am ddim (gan gynnwys staff, offer, caledwedd a meddalwedd) sef tua £75,000 y flwyddyn ar hyn o bryd. Mae'r arian a geir yn fwy na chostau staff ac offer a bydd ei golli'n debyg o olygu y bydd yn rhaid cael arbedion cymesur yng nghyllidebau craidd Sir Ddinbych.

- 6.4 Hefyd, bydd yn bosibl na fydd yr elfen grant Gweithredwyr Gwasanaethau Bysiau yn y Grant Gwasanaethau Cludiant Lleol ar gael i gefnogi gwasanaethau bysiau ysgolion yn y dyfodol. Gallai hyn arwain at gynnydd ym mhrisiau ychydig o gcontractau cludiant ysgolion.
- 6.5 Dylai Aelodau gofio, er y bydd y newidiadau, am y tro cyntaf, yn rhoi elfen o reolaeth dros y gwasanaethau bysiau masnachol, y bydd hynny'n gynyddol ar lefel ranbarthol yn hytrach nag ar lefel leol.

## **7. Pa ymgynghoriadau a wnaed ac a gynhaliwyd Asesiad Sgrinio Effeithiau Cydraddoldeb?**

Cafodd y cynigion a gyhoeddodd y Gweinidog eu datblygu gan grŵp llywio'n cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, y Consortia Cludiant Rhanbarthol a Chonffederasiwn Cludiant Teithwyr. Cynhaliwyd trafodaethau'n lleol gyda Rheolwyr Cludiant Teithwyr y chwe Chyngor ac mae'r mater wedi'i drafod mewn cyfarfod o Fwrdd TATH.

Wrth i effeithiau a goblygiadau'r cwtogi ariannol ddod yn gliriach, mae'n debyg y bydd hynny'n effeithio ar wasanaethau bysiau lleol. Pe byddai'n rhaid diddymu rhai gwasanaethau bysiau, un ai rhai'n derbyn cefnogaeth neu rai masnachol, bydd gofyn cynnal asesiadau effaith llawn yn ogystal ag ymgynghori. Bydd hyn yn rhan o'r blaen gynllun gwaith ar gyfer gweithredu'r newidiadau i ariannu bysiau.

## **8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Er mai'r grantiau sy'n cael eu talu ar gyfer gwasanaethau bysiau sy'n per'i'r pryder ariannol mwyaf, ni fydd y toriadau'n disgyn yn uniongyrchol ar wasanaethau'r Cyngor.

Yr effaith ariannol gyntaf fydd colli'r grant gweinyddu. Fodd bynnag, bydd y cyfrifoldeb yn trosglwyddo a dylai'r gwasanaeth allu dygymod ag unrhyw gostau eraill a oedd yn cael eu hariannu gan y grant o'r blaen.

Ni fydd yn glir beth fydd effaith colli cefnogaeth ar gyfer cludiant ysgolion tan 2013 / 14.

## **9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Yn ôl a ddeallir ar hyn o bryd, y risgiau a allai godi yw:

- Staffio – gallai TUPE fod yn berthnasol
- Goblygiadau colli arian / cyllideb graidd - o ran yr arian sydd ar gael i gefnogi gwasanaethau bysiau, rhai masnachol a rhai sy'n derbyn cefnogaeth, ac o ran yr arian craidd a dderbynir ar hyn o bryd ar gyfer gweinyddu tocynnau teithio rhad.
- Colli rhagor o wasanaethau bysiau lleol – pan na ellir eu rheoli o fewn cyllidebau presennol sy'n crebachu.

- Taith yn methu â darparu o fewn y cyfnodau gofynnol neu'n gyfartal rhwng y chwe awdurdod.

Bydd yn rhaid cynnal trafodaethau rhanbarthol, ar lefel swyddogion ac ar lefel Bwrdd TAITH i geisio lliniaru'r risgiau uchod.

## **10. Yr Hawl i Benderfynu**

Adran 101(5) Deddf Llywodraeth Leol 1972

Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Cymru) 2002.

## Cyfansoddiad TAITH – Newidiadau Arfaethedig

### 1. DIFFINIADAU

- Ardal** mae'n golygu Ardal Llywodraeth Leol pob Awdurdod fel y diffinnir yn Rhan 1 Atodlen IV Deddf Llywodraeth Leol 1972 (diwygiedig) ond gan eithrio ardal Meirionnydd o Gyngor Gwynedd.
- (Ychwanegu) **Gall Cyngor Gwynedd a TAITH gytuno, ar gyfer dibenion gweithredol, y dylid cynnwys y cyfan o ardal Gwynedd yn yr ardal ddiffiniedig ar gyfer darparu ar gyfer amcanion penodol.**

- 3.2 Er mwyn gwireddu'r amcanion uchod, bydd TAITH yn ymgymryd i gwblhau'r amcanion canlynol:
- 3.2.1 datblygu, adolygu a gweithredu o bryd i'w gilydd Strategaeth neu strategaethau Cludiant Rhanbarthol a fydd yn gosod fframwaith ar gyfer buddsoddi mewn cludiant Lleol a Rhanbarthol,
  - 3.2.2 datblygu, adolygu a gweithredu is strategaethau i dalu sylw i broblemau cludiant penodol,
  - 3.2.3 cael y budd mwyaf posibl o bob ffynhonnell arian a grantiau ar gyfer prosiectau a mentrau cludiant Lleol a Rhanbarthol,
  - 3.2.4 cefnogi pob Awdurdod i ddarparu prosiectau a mentrau a fydd y cyfrannu at y nodau sydd yng nghymal 3.1 uchod,
  - 3.2.5 (Cymal newydd) **Gweinyddu, rheoli a darparu grantiau ariannu bysiau a strategaethau rhwydweithiau bysiau ar gyfer y rhanbarth**
  - 3.2.6 ymateb i fentrau cludiant Llywodraeth Cynulliad Cymru er budd y Rhanbarth,
  - 3.2.7 cynrychioli'r Rhanbarth wrth lobio a chyflwyno sylwadau ynghylch problemau cludiant yn a thu hwnt i'r Rhanbarth a fyddai'n effeithio neu'n berthnasol i'r amcanion a nodir yng nghymal 3.1 uchod.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## Cabinet Forward Work Plan

Tudalen 123

Cyfarfod	Eitem (disgrifiad / teitl)		Pwrpas yr adroddiad	Angen Penderfyn iad y Cabinet (oes/na)	Awdur – Aelod arweiniol a swyddog cyswllt
<b>19 Mawrth</b>	1	Adroddiad Diweddar Cyllid	I ddiweddarau'r Cabinet ar safle ariannol presennol y Cyngor	I'w gadarnhau	Y Cyng. Julian Thompson-Hill / Paul McGrady
	2	Cynllun Cyfalaf	I ystyried Cynllun Cyfalaf y Cyngor	Oes	Y Cyng. Julian Thompson-Hill / Paul McGrady
	3	Argymhellion y Grŵp Buddsoddi Strategol 2013 / 14	I ystyried yr argymhellion		Y Cyng. Julian Thompson-Hill / Paul McGrady
	4	Eitemau gan Bwyllgorau Craffu	I ystyried unrhyw faterion a godwyd gan Graffu er mwyn sylw'r Cabinet.	I'w gadarnhau	Cydlynnydd Craffu
	5	Mabwysiadu'r Grwp Llywio ar gyfery Cynllun Adtblygu Lleol	I ystyried mabwysiadu y Grwp Llywio ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol	I'w gadarnhau	Y Cyng Eary Williams / Angela Loftus
<b>16 Ebrill</b>	1	Adroddiad Diweddar Cyllid	I ddiweddarau'r Cabinet ar safle ariannol presennol y Cyngor	I'w gadarnhau	Y Cyng. Julian Thompson-Hill / Paul McGrady
	2	Eitemau gan Bwyllgorau Craffu	I ystyried unrhyw faterion a godwyd gan Graffu er mwyn	I'w gadarnhau	Cydlynnydd Craffu

## Cabinet Forward Work Plan

Tudalen 124

Cyfarfod	Eitem (disgrifiad / teitl)		Pwrpas yr adroddiad	Angen Penderfyn iad y Cabinet (oes/na)	Awdur – Aelod arweiniol a swyddog cyswllt
			sylw'r Cabinet.		
<b>14 Mai</b>	1	Adroddiad Diweddar Cyllid	I ddiweddaru'r Cabinet ar safle ariannol presennol y Cyngor	I'w gadarnhau	Y Cyng Julian Thompson-Hill / Paul McGrady
	2	Rhoi Gwasanaethau TGCh i ddarparwyr allanol	Rhoi trosolwg o'r broses dendro, gwerthuso a sgorio a gofyn am y penderfyniad terfynol gan y Cabinet.	Oes	Y Cyng Eryl Williams / Jackie Walley / Stephanie O'Donnell
	3	Adolygiad o Ddarpariaeth Addysg Ffydd	Ystyried cynigion ar gyfer darpariaeth yng ngogledd y sir.	I'w gadarnhau	Y Cyng Eryl Williams / Jackie Walley
	4	Cynlluniau Trefi ac Ardaloedd	Derbyn adroddiad cynnydd ar ehangu'r Cynlluniau Trefol yn Gynlluniau Ardal ehangach		Y Cynghorwyr Hugh Evans a Huw Jones / Rebecca Maxwell
	5	Eitemau gan Bwylgorau Craffu	Ystyried unrhyw faterion a godwyd gan Graffu er mwyn sylw'r Cabinet.	I'w gadarnhau	Cydlynnydd Craffu
<b>Mehefin</b>	1	Adroddiad dilynol ar roi Gwasanaethau TGCh i ddarparwyr allanol	Adroddiad dilynol posib gyda gwybodaeth ychwanegol ar y broses o	Oes	Y Cyng Eryl Williams / Jackie Walley / Stephanie O'Donnell

Cabinet Forward Work Plan

Tudalen 125

Cyfarfod	Eitem (disgrifiad / teitl)		Pwrpas yr adroddiad	Angen Penderfyn iad y Cabinet (oes/na)	Awdur – Aelod arweiniol a swyddog cyswllt
				dendro, gwerthuso a sgorio a gofyn am y penderfyniad terfynol gan y Cabinet.	
	3	Partneriaeth Iechyd Meddwl		Gofyn i'r Cabinet ystyried a chytuno i bartneriaeth newydd rhwng y Cyngor a Phrifysgol Betsi Cadwaladr i gyflenwi gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion i ddinasyddion Sir Ddinbych.	Phil Gilroy/Y Cyng Bobby Feeley
	4	Cefndy Healthcare: Cyfeiriad yn y dyfodol ac effaith colled botensial cyllid yr Adran Gwaith a Phensiynau		Ystyried opsiynau yng ngoleuni risgiau o golli cyllid yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r angen i gynnal cyflogaeth ar gyfer pobl sy'n agored i niwed a phobl anabl	Y Cyng Bobby Feeley / Phil Gilroy / Deborah Holmes-Langstone
	5	Adolygiad Ysgolion Cynradd Ardal Rhuthun		Ceisio cymeradwyaeth i ddechrau cyfnod ymgynghori ffurfiol efo Ysgolion Cynradd Rhuthun	Oes Y Cyng Eryl Williams / Jackie Walley

Nodyn i swyddogion - Terfynau Amser Adroddiadau'r Cabinet

Cabinet Forward Work Plan

<i>Cyfarfod</i>	<b><i>Terfyn Amser</i></b>	<i>Cyfarfod</i>	<b><i>Terfyn Amser</i></b>	<i>Cyfarfod</i>	<b><i>Terfyn Amser</i></b>
<i>Chwefror</i>	<b><i>5 Chwefror</i></b>	<i>Mawrth</i>	<b><i>5 Mawrth</i></b>	<i>Ebrill</i>	<b><i>2 Ebrill</i></b>

Diweddarwyd 5/2/2013 - SP

Cabinet Forward Work Programme.doc

# Eitem Agenda 12

Yn rhinwedd Paragraff(au) 13, 14 Rhan 4, Atodlen 12A  
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag